**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**
**CONTRACT AR GYFER CYFLENWI GWASANAETHAU**

**Y CONTRACT**

**a wnaed ar y diwrnod o fis 202[ ]**

**AR GYFER PRYNU GWASANAETHAU**

**RHWNG:**

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**

**a**

**[ENW'R CWMNI] CYFYNGEDIG**

**MANYLION Y CONTRACT**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Contract** | [ ] |
| **Cyngor** | **[ ] CYNGOR SIR** [ ] |
| **Contractwr** | **[ENW'R CWMNI]** cwmni wedi ei ymgorffori a'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr â rhif cwmni [Rhif] a swyddfa gofrestredig yn [Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig] |
| **Dyddiad Cychwyn** | [ ] |
| **Dyddiad Dod i Ben** | [ ] |
| **Unrhyw opsiwn i ymestyn** | Os Oes, [diffiniwch y cyfnod ymestyn a] fel yr esboniwyd yn y Fanyleb/neu Nac Oes |
| **Gwasanaethau** | Fel yr esbonnir yn y Fanyleb |
| **Pris y Contract** | £ [ ] (ddim yn cynnwys TAW) a/neu gweler Atodlen 3 Atodlen Pris Contract |
| **Lleoliad Cyflawni (os o gwbl)** | |
| **Proffil Taliadau** | Bydd y taliadau'n fisol yn ôl-ddyledus yn unol â'r Contract [oni nodwyd fel arall yn y Fanyleb] |
| **Cyfeiriad E-bost ar gyfer Anfonebau** | …………………………………….<br><br>……………………………………….. |
| **Cyfeiriad Post ar gyfer Anfonebau** | ……………………………………….. |
| **Safle** | [Y safle[oedd] neu [Manylwch]] |
| **Hawliau Eiddo Deallusol** | Oni nodir fel arall yn y Fanyleb, eiddo'r Cyngor fydd yr holl Hawliau Eiddo Deallusol. |
| **Eiddo** | Fel yr esbonnir yn y Fanyleb. |
| **Safonau Ansawdd** | Fel yr esbonnir yn y Fanyleb. |
| **Telerau Arbennig Cymwys** | Oes/Nac oes |

| Swyddog Awdurdodedig: | | |
|---|---|---|
| Enw | Swydd | Manylion Cyswllt |
| | [Yn y Cyngor] | |
| Rheolwr Contractau | | |
| | [Yn y Contractwr] | |
| Personél Allweddol (os yw'n berthnasol) | | |
| Enw | Swydd | Manylion Cyswllt |
| | [Yn y Contractwr] | |
| | [Yn y Contractwr] | |

| Rheoli Contractau | | |
|---|---|---|
| Gwybodaeth Reoli<br>Cymal B9 | Fel yr esbonnir yng Nghymal B9 ac Atodlen 4 | |
| Monitro Perfformiad y Contract<br>Cymal B10 | Fel yr esbonnir yng Nghymal B10 ac Atodlen 4 | |
| Darparu Cyfarfodydd<br>Cymal B9: | Fel yr esbonnir yng Nghymal B9 ac Atodlen 4 | |
| Amlder | Mynychwyr Arfaethedig | Lleoliad |
| Fel yr esbonnir yng Nghymal B9 ac Atodlen 4 | Swyddog Awdurdodedig a'r Rheolwr Contractau | I hysbysu'r Contractwr |

| Yswiriant (Gweler Rhan E 1 i gael rhagor o wybodaeth) |
|---|

| **Math o Yswiriant:** | **Lefel ofynnol*** |
|---|---|
| **Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr** | **£10 miliwn** |
| **Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus** | **£10 miliwn** |
| **Yswiriant Indemniad Proffesiynol** | **£2 filiwn** (yn ôl yr angen) |
| **Yswiriant Atebolrwydd Cynnyrch** | **£10 filiwn** (yn ôl yr angen) |
| *neu unrhyw swm arall a bennir gan y Cyngor. | |

| **Cyfeiriad ar gyfer Gwasanaethau** | |
|---|---|
| **Cyfeiriad ar gyfer Hysbysiadau Swyddogol (Contractwr)** | [ ] |
| **Cyfeiriad ar gyfer Hysbysiadau Swyddogol (Y Cyngor)** | [ ] |

**CYMALAU'R CONTRACT**

| **RHAN A** | **PARTÏON, CEFNDIR A DARPARIAETHAU GWEITHREDU** |
|---|---|
| A1 | Partïon |
| A2 | Cefndir |
| A3 | Diffiniadau |
| A4 | Dehongliad |
| A5 | Hysbysiadau Swyddogol |
| A6 | Cytundeb Cyflawn a Gwrthdaro |
| **RHAN B** | **DARPARIAETHAU GWASANAETHAU** |
| B1 | Cyfnod y Contract |
| B2 | Perfformiad |
| B3 | Rheolwr Contractau, Personél Allweddol a Staff |
| B4 | Trwydded i Feddiannu a Diogelwch y Safle |
| B5 | Eiddo |
| B6 | Offer |
| B7 | Gofynion Amgylcheddol a Gwerthoedd Cymdeithasol |
| B8 | Iechyd a Diogelwch |
| B9 | Darparu Gwybodaeth Reoli a Chyfarfodydd |
| B10 | Monitro Perfformiad y Contract |
| B11 | Rhwymedigaethau'r Cyngor |
| B12 | Gwarant |
| **RHAN C** | **PRIS Y CONTRACT A THALIADAU** |
| C1 | Pris y Contract |
| C2 | TAW |
| C3 | Anfonebu |
| C4 | Taliadau |
| C5 | Trethiant, Yswiriant Gwladol ac Atebolrwydd Cyflogaeth |
| **RHAN D** | **TERFYNU A CHANLYNIADAU TERFYNU** |
| D1 | Terfynu oherwydd Ansolfedd a Newid Rheolaeth |
| D2 | Terfynu oherwydd Newid Rheolaeth |
| D3 | Terfynu oherwydd Tor-Contract |
| D4 | Terfynu oherwydd Cyfleustod |
| D5 | Cymalau Terfynu Eraill |
| D6 | Canlyniadau Terfynu neu Ddod i Ben |
| D7 | Gweithdrefn Datrys Anghydfodau a Gweithdrefn Gywiro |
| D8 | Goroesi |
| **RHAN E** | **YSWIRIANT AC ATEBOLRWYDD** |
| E1 | Yswiriant |
| E2 | Atebolrwydd |
| **RHAN F** | **DIOGELU GWYBODAETH** |
| F1 | Eiddo Deallusol |
| F2 | Cyfrinachedd a Chyhoeddusrwydd |
| F3 | Diogelu Data |
| F4 | Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol |
| F5 | Gwahaniaethu |
| F6 | Cadw Cofnodion, Mynediad Archwilio a Monitro |
| F7 | Newid Data a Lygrwyd |

| RHAN G | RHWYMEDIGAETHAU STATUDOL |
|---|---|
| G1 | Iechyd a Diogelwch |
| G2 | Gofynion Corfforaethol |
| G3 | Atal Gweithredoedd Gwaharddedig, Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth |
| G4 | Y Gyfraith a Newid yn y Gyfraith |
| G5 | TUPE, Pensiynau ac Aildendro |
| **RHAN H** | **DARPARIAETHAU CYFFREDINOL** |
| H1 | Amrywio'r Contract |
| H2 | Hawliau a Chamau Unioni |
| H3 | Hawliau Trydydd Parti |
| H4 | Hawlildio |
| H5 | Gwahanu |
| H6 | Aseinio, Is-gontractio a Chyfrifoldeb |
| H7 | ***Force Majeure*** |
| H8 | Amhariad a Pharhad Busnes |
| H9 | Gwrthdaro Buddiannau |
| H10 | Costau a Threuliau |
| H11 | Peidio ag Erfyn |
| H12 | Cyfraith Lywodraethu ac Awdurdodaeth |
| H13 | Safonau'r Gymraeg |
| | **ATODLENNI** |
| **Atodlen 1** | Manyleb Gwasanaethau |
| **Atodlen 2** | Tendr |
| **Atodlen 3** | Pris y Contract (os nodwyd hynny ym Manylion y Contract) a Manylion Talu |
| **Atodlen 4** | Monitro Perfformiad y Contract |
| **Atodlen 5** | Templed Cytundeb Prosesu Data (os yw'n berthnasol) |
| **Atodlen 6** | Cyd-reolwyr – arfer hawliau Diogelu Data (os yw'n berthnasol) |

**MAE'R PARTÏON YN CYTUNO FEL A GANLYN:**

**RHAN A - PARTÏON, CEFNDIR A DARPARIAETHAU GWEITHREDU**

**A1. PARTÏON**

(1) **Y CYNGOR** (fel y'i diffiniwyd ym Manylion y Contract); ac

(2) **CONTRACTWR** (fel y'i diffiniwyd ym Manylion y Contract).

**A2. Y CEFNDIR**

(A) Bu i'r Cyngor wahodd cyflenwyr arfaethedig (yn cynnwys y Contractwr) i dendro ar gyfer darparu'r Gwasanaethau.

(B) Ar sail y Tendr ac ar sail y sylwadau a wnaed gan y Contractwr ynddo mae'r Cyngor wedi dewis y Contractwr i ddarparu'r Gwasanaethau.

(C) Mae'r Contractwr yn barod ac yn gallu darparu'r Gwasanaethau yn unol â thelerau ac amodau'r Contract hwn.

**A3. DIFFINIADAU**

Yn y Contract, oni bai fod y cyd-destun yn mynnu fel arall, yr ystyron a roddir isod fydd i'r darpariaethau canlynol:

| | |
|---|---|
| **Cymeradwyaeth** | cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Cyngor. |
| **Archwilydd** | archwilydd a benodir gan y Cyngor. |
| **Swyddog Awdurdodedig** | y person a ddynodir gan y Cyngor ym Manylion y Contract. |
| **Cynllun Parhad Busnes** | cynllun i ddelio â digwyddiad difrifol sy'n bygwth gallu'r Contractwr i ddarparu'r Gwasanaeth ac sy'n golygu bod angen i'r Contractwr wneud **trefniadau** er mwyn sicrhau bod y Gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu; |
| **Dileu Data Ardystiedig** | dileu data drwy wasanaeth all ardystio bod data a gedwir ar systemau technoleg gwybodaeth (yn cynnwys gyriannau disgiau caled a/neu gyfrwng digidol arall) wedi cael ei ddileu. |
| **Newid yn y Gyfraith** | cyflwyno neu ddiddymu (heb ymddeddfu neu gyfuno) yng Nghymru a Lloegr, unrhyw Ddeddf neu unrhyw ddiwygiad neu amrywiad i unrhyw Ddeddf, neu unrhyw ddyfarniad gan lys barn perthnasol sy'n newid cynsail rhwymedig yng Nghymru a Lloegr (ar ôl y Dyddiad Cychwyn ym mhob achos). |
| **Dyddiad Cychwyn** | golygu'r dyddiad cychwyn gwasanaethau a nodir ym Manylion y Contract. |
| **Cwyn** | mynegiant o anfodlonrwydd am weithredoedd neu ddiffyg gweithredoedd y Contractwr neu am ansawdd y Gwasanaeth a ddarperir o dan y Contract neu gydymffurfiaeth neu ddiffyg cydymffurfiaeth â rhwymedigaeth statudol; |

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth Gyfrinachol** | unrhyw wybodaeth sydd wedi ei dynodi'n gyfrinachol gan y naill barti neu'r llall yn ysgrifenedig neu y dylid ei hystyried yn gyfrinachol (ym mha ffordd bynnag y caiff ei mynegi neu ar ba bynnag gyfrwng y caiff ei storio) yn cynnwys gwybodaeth fyddai neu fyddai'n debygol o effeithio ar fuddiannau masnachol unrhyw berson, prisiau, methodolegau, cyfrinachau'r diwydiant, Hawliau Eiddo Deallusol, gwybodaeth y naill Barti neu'r llall a'r holl Ddata Personol a'r data sensitif yng nghwmpas ystyr y ddeddfwriaeth Diogelu Data. |
| **Contract** | y cytundeb ysgrifenedig rhwng y Cyngor a'r Contractwr sy'n cynnwys Manylion y Contract, Cymalau'r Contract, yn cynnwys unrhyw delerau ac amodau arbennig, Manyleb, Tendr ac unrhyw ddogfen arall y cyfeirir atynt yng Nghymalau'r Contract, yr Atodlenni a'r Tendr. Yn achos anghydfod bydd Cymal A6.3 yn gymwys. |
| **Rheolwr Contractau** | y person a ddynodir gan y Contractwr ym Manylion y Contract. |
| **Manylion y Contract** | y ddogfen o'r un enw sy'n rhan o'r Contract hwn. |
| **Cyfnod y Contract** | y cyfnod o'r Dyddiad Cychwyn i'r Dyddiad Dod i Ben oni therfynir neu ymestynnir fel arall yn gynharach yn ddibynnol ar delerau ac amodau'r Contract. |
| **Pris y Contract** | y pris (ddim yn cynnwys unrhyw TAW cymwys) sy'n daladwy i'r Contractwr gan y Cyngor o dan y Contract, fel y nodir hynny ym Manylion y Contract ac Atodlen 3, am i'r Contractwr gyflawni ei rwymedigaethau'n llawn ac yn briodol o dan y Contract. |
| **Blwyddyn y Contract** | cyfnod o ddeuddeg (12) mis, sy'n cychwyn ar y Dyddiad Cychwyn. |
| **Rheolaeth** | rheolaeth fel y'i diffinnir gan adran 416 Deddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988. |
| **Y Goron** | llywodraeth y Deyrnas Unedig (yn cynnwys Cynulliad a Phwyllgor Gweithredol Gogledd Iwerddon a, Gweithrediaeth Yr Alban a Llywodraeth Cymru), yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, weinidogion y llywodraeth ac adrannau'r llywodraeth. |
| **Rheolydd Data** | yr ystyr a nodir yn y ddeddfwriaeth Diogelu Data. |
| **Digwyddiad Colli Data** | unrhyw ddigwyddiad sy'n arwain at, neu all arwain at fynediad heb awdurdod at Ddata Personol a ddelir gan y Contractwr o dan y Contract hwn, a/neu golli gwirioneddol neu botensial a/neu ddifetha Data Personol fyddai'n achos o dorri'r Contract hwn; |
| **Prosesydd Data** | yr ystyr a nodir yn y ddeddfwriaeth Diogelu Data. |
| **Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data** | asesiad gan y Rheolwr Data o effaith y broses a ragwelir ar ddiogelu Data Personol; |

| | |
|---|---|
| **Deddfwriaeth Diogelu Data** | (a) Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU<br>(b) Deddf Diogelu Data;<br>(c) Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwyddeb yr CE) 2003 (OS 2003/2426);<br>(d) pob Cyfraith gymwys ynghylch prosesu data personol a phreifatrwydd a chanllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth ac unrhyw awdurdod rheoleiddio arall. |
| **Gwrthrych y Data** | unrhyw berson byw sy'n destun Data Personol fel y'i diffinnir yn y ddeddfwriaeth Diogelu Data. |
| **Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun** | cais gan Destun Data yn unol â'r hawliau a roddir yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i gael mynediad at ei Ddata Personol. |
| **DBS** | y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (a sefydlwyd o dan Ddeddf Diogelu Rhyddid 2012). |
| **Gwiriadau DBS** | y gwiriadau sy'n cydymffurfio â gweithdrefnau'r DBS. |
| **Tor-Contract** | unrhyw dorri ar rwymedigaethau'r Parti perthnasol (yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i dorri teler neu warant sylfaenol) neu unrhyw achos arall o dorri, neu weithred, hepgoriad, esgeulustod neu ddatganiad esgeulus gan y Parti perthnasol mewn cysylltiad â neu mewn perthynas â thestun y Contract ac mewn perthynas â'r hyn y mae'r cyfryw Barti yn atebol i'r llall. |
| **Anghydfod** | unrhyw anghydfod, gwahaniaethau neu gwestiwn o ddehongliad sy'n deillio o'r Contract hwn neu'n gysylltiedig ag ef, yn cynnwys unrhyw anghydfod, gwahaniaethau neu gwestiwn o ddehongliad mewn perthynas â'r Gwasanaethau neu unrhyw fater pan fo'r Contract hwn yn rhoi cyfarwyddyd i'r partïon ddatrys unrhyw fater drwy gyfeirio at Gymal D7 Gweithdrefn Datrys Anghydfodau. |
| **Hysbysiad Anghydfod** | hysbysiad a roddir yn unol â Chymal D7.1a). |
| **DPA** | Deddf Diogelu Data 2018. |
| **EIR** | Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (SI 2004/3391), ynghyd ag unrhyw ganllawiau a chodau ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu adran berthnasol y llywodraeth mewn perthynas â'r cyfryw reoliadau. |
| **Cyfnod Estynedig** | y cyfnod yng Nghymal B 1.2. |
| **Cyfarpar** | offer, peiriannau, deunyddiau ac unrhyw eitemau eraill o'r fath sy'n eiddo i'r Contractwr a gyflenwir ac a ddefnyddir |

| | |
|---|---|
| | gan y Contractwr wrth gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract. |
| **Dyddiad Dod i Ben** | y dyddiad a nodir ym Manylion y Contract pan fydd y Contract yn dod i ben oni ymestynnir Cyfnod y Contract neu y terfynir y Contract yn unol â thelerau ac amodau'r Contract. |
| **DEDDF RHYDDID GWYBODAETH** | Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a luniwyd o dan y Ddeddf honno o dro i dro ynghyd ag unrhyw ganllawiau a chodau ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu adran berthnasol y llywodraeth mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth. |
| ***Force Majeure*** | unrhyw ddigwyddiad sydd y tu hwnt i reolaeth resymol y Parti dan sylw ac na ellir ei briodoli i unrhyw weithred neu fethu â chymryd camau ataliol gan y Parti hwnnw, yn cynnwys<br>• gweithred ryfel;<br>• gweithred Duw;<br>• gorchymyn y Llywodraeth;<br>• terfysgoedd;<br>• cythrwfl cyhoeddus; neu<br>unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth pa bynnag Barti yr effeithir arno ac na ellid fod wedi ei ragweld gyda rhagwelediad rhesymol; |
| **Arferion Da'r Diwydiant** | safonau, arferion, dulliau a gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â'r Gyfraith a lefel y sgil a gofal, sylw, darbodusrwydd a rhagwelediad fyddai'n rhesymol ac arferol ddisgwyliedig gan berson neu gorff medrus a phrofiadol sy'n ymwneud â gwaith cyffelyb o dan yr un amgylchiadau neu amgylchiadau cyffelyb. |
| **Gwybodaeth** | yr ystyr a nodir o dan adran 84 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. |
| **Hawliau Eiddo Deallusol** | yr holl hawliau eiddo deallusol o unrhyw natur yn unrhyw le yn y byd p'un a ydynt wedi eu cofrestru, yn gofrestradwy neu fel arall, yn cynnwys patentau, modelau gwasanaeth, nodau masnach, dyluniadau cofrestredig ac enwau parth, ceisiadau am unrhyw un o'r uchod, enwau masnachu neu fusnes, ewyllys da, hawlfreintiau a hawliau o natur hawlfraint, hawliau dylunio, hawliau mewn cronfeydd data, hawliau moesegol, gwybodaeth ac unrhyw hawliau eiddo deallusol eraill sydd yn bodoli mewn meddalwedd gyfrifiadurol, rhaglenni cyfrifiadurol, gwefannau, dogfennau, gwybodaeth, technegau, dulliau busnes, lluniadau, logos, llawlyfrau cyfarwyddiadau, rhestrau a gweithdrefnau, dulliau a gweithdrefnau marchnata a llenyddiaeth hysbysebu, yn cynnwys edrychiad a theimlad gwefannau, a bydd **Eiddo Deallusol** yn cyfeirio at y cyfryw ddeunyddiau. |
| **Dyfeisiau** | unrhyw ddyfais, syniad, darganfyddiad, datblygiad, gwelliant neu arloesedd a gyflawnir gan y Contractwr neu Bersonél Allweddol wrth ddarparu'r Gwasanaethau, pa un |

| | |
|---|---|
| | a ydynt yn batentadwy neu'n gofrestradwy neu beidio, a pha un a ydynt wedi eu cofnodi ar unrhyw gyfrwng neu beidio. |
| **Personél Allweddol** | unrhyw Bersonél Allweddol a nodir ym Manylion y Contract fel personél allweddol mewn perthynas â darparu’r Gwasanaethau. |
| **Dangosyddion Perfformiad Allweddol** | y dangosyddion perfformiad allweddol a nodir yn Atodlen 4 ac sy’n rhan o’r Wybodaeth Reoli; |
| **Y Gyfraith** | unrhyw Ddeddf Seneddol cymwys, is-ddeddfwriaeth o fewn ystyr adran 21(1) Deddf Dehongli 1978, ymarfer yr uchelfraint frenhinol, hawl gymunedol y gellir ei gorfodi o fewn ystyr adran 2 Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972, polisi rheoleiddio, canllawiau neu gôd diwydiant, dyfarniad llys barn perthnasol, neu gyfarwyddebau neu ofynion unrhyw Gorff Rheoleiddio y mae’r Contractwr yn rhwymedig i gydymffurfio â nhw; |
| **Gwybodaeth Reoli** | y wybodaeth reoli sy’n ofynnol gan y Cyngor a/neu fel y nodir hynny ym Manylion y Contract neu’r Fanyleb ac yn Atodlen 4 ac a fydd yn cynnwys y Prif Ddangosyddion Perfformiad os oes rhai; |
| **Mis** | mis calendr. |
| **Parti** | y Contractwr neu’r Cyngor a bydd **Partïon** yn golygu'r Contractwr a’r Cyngor. |
| **Cyfnodau Rheoli Perfformiad** | y cyfnodau rheoli perfformiad a nodir yn y Fanyleb (os o gwbl). |
| **Data Personol** | bydd iddo’r un ystyr â'r un a nodir yn y ddeddfwriaeth Diogelu Data ac mae’n gysylltiedig â data personol yn unig, neu unrhyw ran o ddata o’r fath, a’r Cyngor yw’r Rheolydd Data arno, ac mewn perthynas â’r data hwnnw y mae’r Contractwr yn darparu’r Gwasanaethau o dan y Contract hwn. |
| **Torri Rheolau Data Personol** | Unrhyw achos o dramgwyddo diogelwch sy'n arwain at ddinistrio, colli, newid, datgelu neu roi mynediad i ddata personol heb ganiatâd, boed yn ddata personol a drosglwyddir, a gedwir neu a brosesir gan y Contractwr o dan y Contract hwn. |
| **Safle** | lleoliad neu leoliadau fydd ar gael i’r Contractwr at ddibenion y Contract fel y nodir hynny naill ai ym Manylion y Contract neu’r Fanyleb. |
| **Proses** | bydd iddo’r ystyr a roddir iddo o dan y ddeddfwriaeth Diogelu Data, ond at ddibenion y Contract hwn, bydd yn cynnwys prosesu ar bapur ac awtomatig. |
| **Gweithred Waharddedig** | mae’r canlynol yn Weithredoedd Gwaharddedig:<br>(a) cynnig, addo neu roi mantais ariannol neu fantais arall i unrhyw berson sy’n gweithio i neu’n sy’n gysylltiedig â'r Cyngor yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, er mwyn:<br>• cymell y person hwnnw i gyflawni swyddogaeth neu weithgaredd perthnasol yn amhriodol; neu |

| | |
|---|---|
| | • wobrwyo'r person hwnnw am gyflawni swyddogaeth neu weithgaredd perthnasol yn amhriodol;<br><br>(b) gofyn am, cytuno â neu dderbyn unrhyw fantais ariannol neu fantais arall, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, fel cymhelliant neu wobr am gyflawni swyddogaeth neu weithgaredd perthnasol yn amhriodol mewn perthynas â'r Contract hwn;<br><br>(c) cyflawni trosedd:<br>• o dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010;<br>• o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015;<br>• o dan ddeddfwriaeth sy'n creu troseddau<br>• sy'n ymwneud â gweithredoedd o dwyll;<br>• o dan gyfraith gyffredin yn gysylltiedig â gweithredoedd twyllodrus mewn perthynas â'r Contract hwn neu unrhyw gontract arall gyda'r Cyngor; neu<br><br>(d) dwyllo, ymdrechu i dwyllo neu gynllwynio i dwyllo'r Cyngor. |
| **Eiddo** | yr eiddo, ac eithrio eiddo tirol, a roddwyd neu a roddwyd ar gael i'r Contractwr neu'r Personél Allweddol gan y Cyngor mewn perthynas â'r Contract. |
| **Camau Diogelu** | camau technegol a sefydliadol priodol allai gynnwys: ffugenwi ac amgodio Data Personol, sicrhau cyfrinachedd, uniondeb, argaeledd a chydnerthedd systemau a gwasanaethau, sicrhau y gellir adfer argaeledd a mynediad i Ddata Personol yn amserol ar ôl digwyddiad, ac asesu a gwerthuso effeithiolrwydd camau o'r fath a fabwysiadwyd yn rheolaidd; |
| **Safonau Ansawdd** | y safonau ansawdd a gyhoeddwyd gan Safonau Prydeinig BSI, Corff Safonau Cenedlaethol y Deyrnas Unedig, Sefydliad Rhyngwladol Safoni neu gorff cyfatebol arall ag enw da (a'u cyrff olynol) y byddai'n rhesymol ddisgwyliedig i weithredwr medrus a phrofiadol yn yr un math o ddiwydiant neu sector busnes â'r Contractwr gydymffurfio â nhw (fel y manylir mwy arnynt efallai ym manylion y Contract) ac unrhyw safonau ansawdd eraill a nodir ym Manylion y Contract. |
| **Cyrff Rheoleiddio** | yr adrannau llywodraeth hynny a'r endidau, pwyllgorau, ombwdsmyn a chyrff rheoleiddiol, statudol ac arall y mae ganddynt, p'un a bod hynny o dan statud, rheolau, rheoliadau, codau ymarfer neu fel arall, yr hawl i reoleiddio, ymchwilio neu ddylanwadu ar y materion yr ymdrinnir â nhw yn y Contract neu unrhyw faterion eraill y Cyngor. |
| **Contractwr Newydd** | darparwr gwasanaeth trydydd parti a benodir gan y Cyngor i gyflenwi unrhyw wasanaethau sydd yn gyffelyb o |

| | |
|---|---|
| | ran eu sylwedd i unrhyw rai o'r Gwasanaethau, ac mae'r Cyngor yn eu derbyn yn amnewid am unrhyw rai o'r Gwasanaethau yn dilyn dyddiad dod i ben y Contract neu pan y'i terfynir neu y'i terfynir yn rhannol. |
| **Cais am Wybodaeth** | bydd iddo'r ystyr a nodir yn y FOIA neu EIR fel sy'n berthnasol (pan fo'r ystyr a nodir ar gyfer y term "cais" yn berthnasol). |
| **Yswiriant Gofynnol** | yr yswiriant sy'n gynwysedig yng Nghymal E1 Yswiriant a Manylion y Contract fydd yn ddigonol i ddarparu lefel y sicrwydd sy'n ofynnol ar gyfer yr holl risgiau allai ddod i ran y Contractwr wrth gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract am gyhyd ag y bydd y Contractwr yn atebol i'r Cyngor. |
| **Gwasanaethau** | y gwasanaethau i'w cyflenwi fel y nodir ym Manylion y Contract ac fel y disgrifir yn y Fanyleb. |
| **Manyleb** | disgrifiad o'r Gwasanaethau a/neu'r Nwyddau sy'n ofynnol i'w cyflenwi i'r Cyngor fel y cyhoeddwyd yn y gwahoddiad i gyflwyno tendr a/neu unrhyw ddogfen arall a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn nodi'r Gwasanaethau a/neu'r nwyddau sy'n ofynnol i'r Contractwr eu darparu ac a atodir yn **Atodlen 1.** |
| **Staff** | yr holl unigolion (boed yn wirfoddolwyr neu beidio), yn cynnwys Personél Allweddol, yn gyflogedig neu a ddefnyddir gan y Contractwr i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract ynghyd ag asiantau, cyflenwyr ac is-gontractwyr y Contractwr a chyflogeion neu asiantau Is-gontractwyr a ddefnyddir ar gyfer cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract. |
| **Gweithdrefnau Fetio Staff** | gweithdrefnau'r Cyngor a pholisïau adrannol ar gyfer fetio personél, fel bo'n briodol, ar gyfer:<br>(a) cymhwysedd i weithio yn y DU;<br>(b) delio â gwybodaeth o natur sensitif neu gyfrinachol;<br>(c) delio a gwybodaeth sy'n destun unrhyw gamau diogelwch perthnasol;<br>(d) ymgymryd â gweithgareddau a reoleiddir o fewn ystyr Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006; a/neu<br>(e) ble nodir hynny yn y Fanyleb, Gwiriadau DBS. |
| **Is-gontract** | unrhyw gontract rhwng y Contractwr a thrydydd parti y mae'r Contractwr yn cytuno oddi tano i sicrhau darparu unrhyw rai o'r Gwasanaethau hynny gan y trydydd parti hwnnw. |
| **Is-gontractwr** | contractwr sy'n cytuno ar Is-gontract â'r Contractwr. |
| **Tendr** | y ddogfen neu ddogfennau a gyflwynir gan y Contractwr i'r Cyngor mewn ymateb i'r Fanyleb fel y'i darperir yn **Atodlen 2**. |
| **TUPE** | Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (fel y'u diwygiwyd). |
| **Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU** | yr ystyr a nodir yn adran 3(10) o'r Ddeddf Diogelu Data, fel y'i hategir gan adran 205(4)) |

| | |
|---|---|
| **Anyswiriadwy** | a) nid yw yswiriant ar gael i'r Contractwr mewn perthynas â'r risgiau yng Nghymal E1.1 ar y farchnad yswiriant fyd-eang gan yswirwyr cydnabyddedig ag enw da mewn perthynas â'r risg honno; neu b) mae'r premiwm yswiriant sy'n daladwy ar gyfer yswirio'r risg honno mor uchel fel nad yw contractwyr yn y Deyrnas Unedig yn yswirio yn erbyn y risg honno yn gyffredinol ar y farchnad yswiriant fyd-eang gan yswirwyr cydnabyddedig. |
| **TAW** | treth ar werth yn unol â darpariaeth Deddf Treth Ar Werth 1994. |
| **Diwrnod Gwaith** | unrhyw ddiwrnod ac eithrio Dydd Sadwrn neu Ddydd Sul neu wyliau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr. |
| **Gwaith** | pob cofnod, adroddiad, dogfen, papur, lluniad, dyluniad, tryloywlun, ffotograff, graffeg, logo, trefniadau topograffeg, meddalwedd, a phob deunydd arall ar ba bynnag ffurf, yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i gopi caled a ffurf electronig, a gaiff eu paratoi gan y Contractwr neu Bersonél Allweddol wrth ddarparu'r Gwasanaethau. |

## A4. <u>DEHONGLIAD</u>

A4.1 Bydd dehongliad a lluniad y Contract yn ddarostyngedig i'r darpariaethau canlynol:

(a) mae geiriau ag ystyr unigol yn cynnwys, pan fo'r cyd-destun yn amlygu hynny, yr ystyr lluosog, ac i'r gwrthwyneb;

(b) mae geiriau gwrywaidd yn cynnwys yr ystyr fenywaidd a diryw;

(c) mae cyfeiriad at Gymal yn gyfeiriad at y Cymal hwnnw yn gyflawn oni nodir fel arall;

(d) bydd unrhyw gyfeiriad at orchymyn, deddfiad, statud, rheoliad neu offeryn tebyg arall yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y gorchymyn, deddfiad, statud, rheoliad neu offeryn fel y'u diwygir gan unrhyw reoliad, gorchymyn, deddfiad, addasiad neu offeryn dilynol fel y'u haddesir neu y'u hailddeddfir yn dilyn hynny.

(e) bydd cyfeiriad at unrhyw berson yn cynnwys unigolion a phartneriaethau naturiol, cwmnïau a chyrff ymgorfforedig eraill a phob person cyfreithiol arall o ba fath bynnag a beth bynnag fo'u cyfansoddiad a'u holynwyr a'r aseiniadau a ganiateir neu drosglwyddeion;

(f) mae i'r geiriau "cynnwys" ac "yn cynnwys" yr ystyr fel pe'u dilynir yn syth gan y geiriau "heb gyfyngiad";

(g) mae penawdau yn gynwysedig yn y Contract er rhwyddineb cyfeirio yn unig,

ac ni fyddant yn effeithio ar ddehongliad neu luniad y Contract;

(h) mae Manylion y Contract yn rhan o'r Contract ac mae iddynt yr un effaith â phetaent wedi eu cynnwys ym mhrif gorff y Contract a bydd unrhyw gyfeiriad at y Contract yn cynnwys Manylion y Contract;

(i) mae'r Atodlenni yn rhan o'r Contract ac mae iddynt yr un effaith â phetaent wedi eu cynnwys ym mhrif gorff y Contract a bydd unrhyw gyfeiriad at y Contract yn cynnwys yr Atodlenni;

(j) bydd cyfeiriadau yn y Contract at unrhyw Gymal neu Atodlen heb ddynodiad ychwanegol yn cael eu dehongli fel cyfeiriad at y Cymal neu Atodlen i'r Contract a rifir;

(k) bydd cyfeiriadau yn y Contract at unrhyw baragraff neu is-baragraff heb ddynodiad ychwanegol yn cael eu dehongli fel cyfeiriad at y paragraff neu is-baragraff yn yr Atodlen i'r Contract a rifir a

(l) bydd cyfeiriadau at, a gofynion mewn perthynas â Gwasanaethau yng Nghymalau'r Contractau, yn ymwneud â Nwyddau pan fydd y Fanyleb a'r cyd-destun yn gofyn amdanynt.

## A5. HYSBYSIADAU SWYDDOGOL

A5.1 Ac eithrio fel y darperir yn bendant fel arall yn y Contract, ni fydd unrhyw ddilysrwydd i unrhyw hysbysiad neu gyfathrebu rhwng y naill Barti a'r llall o dan y Contract hwn oni wneir hynny'n ysgrifenedig gan y Parti sy'n anfon y cyfathrebiad.

A5.2 Bydd unrhyw hysbysiad neu gyfathrebiad arall fydd yn cael ei roi gan y naill Barti i'r llall yn cael ei roi drwy lythyr (wedi ei anfon â llaw, post cofrestredig, neu gyda'r gwasanaeth postio wedi ei gofnodi). Bydd llythyrau o'r fath yn cael eu cyfeirio at y Parti arall yn y modd y cyfeirir ato yn y Cymal hwn. Cyn belled nad yw'r cyfathrebiad perthnasol yn cael ei ddychwelyd heb ei anfon, tybir y bydd yr hysbysiad neu gyfathrebiad wedi cael ei roi:

(a) ar y Diwrnod Gwaith yn achos llythyrau a anfonir â llaw; neu

(b) dau (2) Ddiwrnod Gwaith ar ôl y diwrnod y postiwyd y llythyr; neu

(c) yn gynharach pan fo'r Parti arall yn cydnabod derbyn y cyfryw lythyr.

A5.3 Y cyfeiriad ar gyfer anfon y cyfryw hysbysiadau at y naill Barti a'r llall fydd:

(a) ar gyfer y Cyngor: y cyfeiriad a nodir ym Manylion y Contract; ac

(b) ar gyfer y Contractwr: y cyfeiriad a nodir ym Manylion y Contract.

A5.4 Fel na fydd amheuaeth, ni fydd unrhyw hysbysiad neu gyfathrebiad o dan y Contract hwn yn cael eu derbyn drwy ffacs neu e-bost.

A5.5 Gall y naill Barti neu’r llall newid ei gyfeiriad gwasanaethau drwy roi hysbysiad yn unol â’r Cymal hwn.

## A6. CYTUNDEB CYFLAWN A GWRTHDARO

A6.1 Y Contract hwn yw'r cytundeb yn gyflawn rhwng y Partïon ac mae’n disodli ac yn diddymu pob cytundeb, addewid, sicrwydd, gwarant, cynrychiolaeth a dealltwriaeth flaenorol rhyngddynt, boed hynny’n ysgrifenedig neu ar lafar, mewn perthynas â’r Contract, ac eithrio pan fernir bod unrhyw amrywiad cytunedig yn unol â Chymal B1.2 (Cyfnod y Contract) neu Gymal H1 (Amrywio’r Contract) yn rhan o'r Contract hwn.

A6.2 Mae pob Parti yn cytuno na fydd yn cymryd unrhyw gamau unioni mewn perthynas ag unrhyw ddatganiad, cynrychiolaeth, sicrwydd neu warant (boed hynny wedi ei wneud yn ddiniwed neu’n esgeulus) na nodir yn y Contract hwn.

A6.3 Yn achos gwrthdaro, ac i’r graddau hynny yn unig, rhwng Manylion y Contract, Cymalau’r Contract ac unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt yn y Cymalau hynny, bydd y gwrthdaro yn cael ei ddatrys yn unol â’r drefn flaenoriaethol hon:

a) Cymalau’r Contract;
b) Manylion y Contract;
c) y Fanyleb;
d) unrhyw ddogfen arall y cyfeirir ati yng Nghymalau’r Contract;
e) Tendr y Contractwr

# RHAN B - DARPARU GWASANAETHAU

## B1. CYFNOD Y CONTRACT

B1.1 Er y dyddiad ar y Contract hwn, bydd Cyfnod y Contract yn cychwyn ar y Dyddiad Cychwyn, ac oni chaiff ei derfynu yn gynharach yn unol ag unrhyw ddarpariaeth yn y Contract, bydd yn parhau mewn grym tan y Dyddiad Dod i Ben neu unrhyw ddyddiad y cytunir arno rhwng y Partïon fel estyniad y tu hwnt i’r Dyddiad Dod i Ben.

B1.2 Os yw’r Contract yn cynnwys opsiwn i ymestyn, gall y Cyngor, drwy roi rhybudd ysgrifenedig i’r Contractwr ddim llai nag un Mis cyn y Dyddiad Dod i Ben, ymestyn y Contract am y Cyfnod Estynedig.

B1.3 Bydd darpariaethau’r Contract yn berthnasol drwy gydol y Cyfnod Estynedig.

B1.4 Fel na fydd amheuaeth, ni fydd gan y Contractwr hawl i dderbyn unrhyw daliad digolledu gan y Cyngor pan ddaw'r Contract hwn i ben.

## B2. PERFFORMIAD

B2.1 Bydd y Contractwr yn cyflenwi'r Gwasanaethau yn unol â’r Fanyleb a’r Tendr yn gyfnewid am Bris y Contract.

B2.2 Mae’r Contractwr yn cydnabod ei fod wedi gwneud ei ymholiadau ei hun er mwyn bodloni ei hun ynghylch cywirdeb a digonolrwydd unrhyw wybodaeth a roddir iddo gan neu ar ran y Cyngor cyn cyflwyno ei Dendr, fel ei fod yn fodlon mewn perthynas â phob mater sy’n gysylltiedig â chyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract hwn.

B2.3 Bydd y Contractwr yn gyfrifol am gywirdeb yr holl luniadau, dogfennau a gwybodaeth a gyflenwir i’r Cyngor gan y Contractwr mewn perthynas â chyflenwi’r Gwasanaethau, a bydd yn talu i’r Cyngor unrhyw gostau ychwanegol sy’n gysylltiedig ag unrhyw anghysondebau, gwallau neu hepgorion ynddynt.

B2.4 Bydd y Contractwr yn:

a) cydymffurfio bob amser â’r Safonau Ansawdd, a phan fo’n gymwys dylai gynnal achrediad â’r corff awdurdodi Safonau Ansawdd perthnasol;

b) i’r graddau na nodir safonau’r Gwasanaethau yn y Contract, yn gofyn am gadarnhad gan y Cyngor ynghylch safon berthnasol y Gwasanaethau cyn cychwyn cyflenwi’r Gwasanaethau; a

c) phob amser yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract yn unol â’r Gyfraith ac Arferion Da’r Diwydiant.

B2.5 Bydd y Contractwr yn sicrhau y bydd yr holl Staff sy’n cyflenwi’r Gwasanaethau yn gwneud hynny gyda’r holl sgil, gofal a diwydrwydd dyladwy, a’i fod yn meddu ar y cyfryw gymwysterau, sgiliau a phrofiad sydd eu hangen er mwyn cyflenwi’r Gwasanaethau’n briodol yn unol ag Arferion Da’r Diwydiant.

B2.6 Bydd cyflenwi’r Gwasanaethau yn brydlon yn hanfodol o dan y Contract, yn cynnwys mewn perthynas â chychwyn cyflenwi’r Gwasanaethau o fewn yr amser y cytunwyd arno neu ar ddyddiad penodol.

B2.7 Gall y Cyngor archwilio’r modd y mae’r Contractwr yn cyflenwi’r Gwasanaethau ar y Safle.

B2.8 Os daw’r Contractwr ar unrhyw adeg yn ymwybodol o unrhyw weithred neu hepgoriad, neu weithred neu hepgoriad arfaethedig gan y Cyngor sydd yn atal neu’n rhwystro, neu a allai atal neu rwystro'r Contractwr rhag darparu’r Gwasanaethau yn unol â'r Contract, dylai’r Contractwr hysbysu’r Cyngor a gall y Cyngor, ar ei ddisgresiwn absoliwt ei hun, ymestyn cyfnod y Contract yn unol â hynny.

B2.9 Os daw’r Contractwr ar unrhyw adeg yn ymwybodol o unrhyw fater perthnasol sydd yn atal neu’n rhwystro, neu a allai atal neu rwystro'r Contractwr rhag darparu’r Gwasanaethau yn unol â’r Contract, dylai’r Contractwr hysbysu’r Cyngor ar unwaith.

B2.10 Os bydd newid Rheolaeth yn digwydd neu wedi digwydd yn achos y Contractwr, dylai’r Contractwr hysbysu’r Cyngor cyn gynted ag sy’n rhesymol ymarferol.

B2.11 Mae'r Cyngor yn cadw'r Contractwr er mwyn darparu'r Gwasanaethau ar sail anghyfyngol.

B2.12 Ar bob amser yn ystod Cyfnod y Contract bydd y Contractwr yn ddarparwr gwasanaeth annibynnol ac ni fydd dim yn y Contract yn creu contract cyflogaeth, perthynas ar ffurf asiantaeth na phartneriaeth na menter ar y cyd rhwng y Partïon ac, yn unol â hynny, ni chaiff y naill Barti na'r llall weithredu yn enw neu ar ran y Parti arall na'i ymrwymo fel arall mewn unrhyw ffordd, oni bai y caniateir hynny'n benodol gan delerau'r Contract.

## B3. <u>RHEOLWR CONTRACTAU, PERSONÉL ALLWEDDOL A STAFF</u>

B3.1 Y Contractwr fydd yn penodi'r Rheolwr Contractau. Bydd y Rheolwr Contractau yn gymwys mewn perthynas â phwnc y Contract, a bydd, ac eithrio mewn achos o Anghydfod, yn gallu gwneud penderfyniadau o dan y Contract heb yr angen i uwchgyfeirio'r mater o fewn busnes y Contractwr. Ni fydd hynny mewn unrhyw ffordd yn cyfyngu ar unrhyw hawliau neu rwymedigaethau eraill y Contractwr.

B3.2 Bydd penodi Personél Allweddol yn cael ei nodi ym Manylion y Contract. Bydd y Contractwr, ac yn sicrhau y bydd unrhyw Is-gontractwr, yn cael Cymeradwyaeth ymlaen llawn gan y Cyngor cyn gwaredu neu newid unrhyw Bersonél Allweddol yn ystod Cyfnod y Contract, a phan fo'n bosibl, mae'n rhaid i'r Contractwr ddarparu o leiaf dau (2) Fis o rybudd o'i fwriad i newid Personél Allweddol.

B3.3 Mae'r Contractwr yn cydnabod bod y Personél Allweddol yn hanfodol i ddarparu Gwasanaethau'n gywir i'r Cyngor.

B3.4 Gall y Cyngor, drwy hysbysiad ysgrifenedig, ofyn i'r Contractwr waredu o ddarpariaeth y Gwasanaethau unrhyw Bersonél Allweddol mewn perthynas â chyflawni'r Contract y mae'r Cyngor yn ystyried sy'n anfoddhaol mewn unrhyw ffordd.

B3.5 Gall y Cyngor, drwy hysbysiad ysgrifenedig, wrthod derbyn unrhyw aelod Staff, neu ddiddymu ei ganiatâd i aros ar y Safle, y byddai ei dderbyn neu ei bresenoldeb o hynny ymlaen, ym marn resymol y Cyngor, yn annymunol.

B3.6 Ar gais ysgrifenedig y Cyngor, bydd y Contractwr yn darparu rhestr o enwau'r holl unigolion allai fod angen mynediad i'r safle, gan nodi unrhyw fanylion y bydd y Cyngor eu hangen o fewn rheswm.

B3.7 Bydd y Contractwr yn sicrhau bod yr holl Staff yn cydymffurfio â'r cyfryw reolau, rheoliadau a gofynion all fod mewn grym a/neu yr hysbysir y Contractwr amdanynt o bryd i'w gilydd yn cynnwys y rheolau neu'r rheoliadau hynny sydd yn benodol gysylltiedig, er enghraifft diogelwch, â'r Safle.

B3.8 Mae'r Contractwr yn gwarantu ei fod wedi cydymffurfio â'r Gweithdrefnau Fetio Staff mewn perthynas â'r holl Staff ar y Dyddiad Cychwyn neu'n dilyn hynny ac na ddylai gyflogi neu ddefnyddio unrhyw berson yn narpariaeth y Gwasanaethau sydd wedi'u gwahardd rhag gweithredu, neu fod eu hymddygiad

blaenorol neu gofnodion yn nodi na fyddant yn addas i ddarparu'r Gwasanaethau.

## B4. TRWYDDED I FEDDIANNU A DIOGELWCH Y SAFLE

B4.1 Yn ddarostyngedig i Gymal B4.3 bydd unrhyw dir neu Safle fydd o bryd i'w gilydd wedi eu rhoi ar gael i'r Contractwr gan y Cyngor mewn cysylltiad â'r Contract ar gael i'r Contractwr ar sail trwydded anghyfyngol a bydd yn cael ei ddefnyddio gan y Contractwr at ddiben cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract yn unig. Gall y Cyngor ofyn i'r Contractwr gytuno ar gytundeb trwyddedu ar gyfer defnyddio'r Safle a gall ofyn i'r Contractwr dalu ffi trwydded i'r Cyngor.

B4.2 Mae'r Partïon yn cytuno nad oes unrhyw fwriad gan y Cyngor i greu tenantiaeth o unrhyw fath mewn perthynas â'r Safle mewn unrhyw ffordd o blaid y Contractwr na'i Staff.

B4.3 Bydd y Contractwr yn cael defnyddio'r cyfryw dir neu Safle fel trwyddedai a bydd yn gadael y cyfryw lefydd ar ôl cwblhau, terfynu neu adael y Contract, neu ar ôl derbyn hysbysiad i wneud hynny gan y Cyngor ar unrhyw adeg yn ystod Cyfnod y Contract.

B4.4 Bydd y Contractwr yn talu cost atgyweirio unrhyw ddifrod a achosir gan y Contractwr neu ei Staff ac eithrio traul a breuo rhesymol. Fel na fydd amheuaeth, mae difrod yn cynnwys difrod i ddeunydd yr adeiladau, peiriannau, offer sefydlog neu ffitiadau ynddynt. Bydd unrhyw anghydfod mewn perthynas â'r rhwymedigaeth i unioni yn unol â'r cymal B4.4 hwn yn cael ei gyfeirio at ddatrys anghydfodau yn unol â Chymal D7 (Datrys Anghydfodau).

B4.5 Bydd y Contractwr yn cydymffurfio â phob gofyniad diogelwch gan y Cyngor tra bydd ar y Safle, a bydd yn sicrhau bod ei holl Staff yn cydymffurfio â'r cyfryw ofynion. Y Contractwr fydd yn gyfrifol am ddiogelwch ei asedau ei hun, ei Offer a gwybodaeth a ddefnyddir ar y Safle wrth ddarparu'r Gwasanaethau, ac ni fydd y Cyngor yn atebol mewn unrhyw ffordd mewn perthynas ag unrhyw golled, difrod, llygredigaeth, anaf, cost neu draul mewn perthynas â'r cyfryw asedau, Offer neu wybodaeth ym mha ffordd bynnag fyddai hynny'n digwydd.

## B5. EIDDO

B5.1 Bydd unrhyw Eiddo a ddarperir i'r Contractwr gan y Cyngor yn parhau i fod yn Eiddo i'r Cyngor ac mae'r Contractwr yn ddi-alw'n-ôl yn trwyddedu'r Cyngor a'i asiantau i gael mynediad i'r unrhyw safleoedd y Cyngor yn ystod oriau busnes arferol ac yn dilyn hysbysiad rhesymol er mwyn adfer y cyfryw Eiddo. Bydd yr Eiddo yn cael ei ddychwelyd i'r Cyngor ar gost y Contractwr ar neu cyn y Dyddiad Dod i Ben.

B5.2 Ni fydd gan y Contractwr o dan unrhyw amgylchiadau lien neu unrhyw fuddiant arall yn yr Eiddo fel asiant ymddiriedol a derbyniwr y Cyngor.

B5.3 Oni bai fod y Contractwr yn hysbysu'r Cyngor o fewn pum (5) Diwrnod Gwaith o dderbyn yr Eiddo, dyfernir bod yr Eiddo mewn cyflwr da pan y'i derbyniwyd gan neu ar ran y Contractwr.

B5.4 Bydd yr Eiddo ond yn cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â darpariaeth y Gwasanaethau.

B5.5 Bydd y Contractwr yn sicrhau diogelwch yr Eiddo ac yn cynnal yr Eiddo mewn cyflwr da.

B5.6 Bydd y Contractwr yn hysbysu'r Cyngor yn brydlon yn achos unrhyw ddiffygion, colled neu ddifrod fydd yn deillio o'r Eiddo neu'n digwydd i'r Eiddo.

B5.7 Bydd y Contractwr yn atebol am bob colled neu ddifrod i'r Eiddo (ac eithrio traul dderbyniol) oni bai fod y cyfryw golled neu ddifrod wedi cael ei achosi gan y Cyngor. Bydd unrhyw anghydfod mewn perthynas ag atebolrwydd y Contractwr yn unol â'r cymal B5.7 hwn yn cael ei gyfeirio at ddatrys anghydfodau yn unol â Chymal D7.

## B6. <u>CYFARPAR</u>

B6.1 Ac eithrio pan nodir fel arall yn y Fanyleb, bydd y Contractwr yn darparu'r Offer er mwyn darparu'r Gwasanaethau ar ei gost ei hun. Bydd Offer o'r fath yn addas i'r diben, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda (yn unol â gofynion gwasanaethu a chynnal a chadw'r gwneuthurwr), wedi ei yswirio, a phan fo angen yn bodloni unrhyw Safonau Ansawdd a/neu'r gofynion sy'n gynwysedig yn y Fanyleb.

B6.2 Wrth ddefnyddio unrhyw Offer, dylai'r Contractwr roi sylw priodol pan fo'n berthnasol i economi tanwydd ac arbed ynni a sicrhau bod yr Offer yn cael ei ddefnyddio mewn modd diogel a bod hynny'n cydymffurfio â'r gofynion rheoli priodol. Bydd hynny yn cynnwys labelu cynwysyddion yn glir a chywir er mwyn dangos eu cynnwys a sicrhau bod y Staff wedi cael cyfarwyddyd priodol ynghylch materion o'r fath.

B6.3 Bydd y Contractwr yn gyfrifol am ddiogelwch yr holl Offer a ddefnyddir gan y Contractwr mewn perthynas â'r Gwasanaethau. Ni fydd y Cyngor yn atebol am golled, difrod nac anaf mewn perthynas â hynny.

B6.4 Ar ddiwedd y Contract bydd unrhyw Offer fydd yn dal ar y Safle, yn ddarostyngedig i Gymal D6.4 (f) a (g), yn cael ei symud oddi yno ar gost y Contractwr.

## B7. <u>GOFYNION AMGYLCHEDDOL A GWERTHOEDD CYMDEITHASOL</u>

B7.1 Bydd yn ofynnol i'r Contractwr gyflawni unrhyw elfennau o werth cymdeithasol cytunedig yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Fanyleb.

B7.2 Pan fo'n berthnasol i'r Fanyleb, bydd y Contractwr yn cydweithredu â'r Cyngor mewn perthynas â llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ardal y

Cyngor ac yn unol â hynny bydd yn hysbysu'r Cyngor am unrhyw syniadau ynghylch arferion gorau allai wella hynny.

## B8. IECHYD A DIOGELWCH

B8.1 Tra bydd ar y Safle, bydd y Contractwr yn cydymffurfio ag unrhyw gamau iechyd a diogelwch a weithredwyd gan y Cyngor mewn perthynas â Staff ac unrhyw unigolion eraill sy'n gweithio yno.

B8.2 Bydd y Contractwr yn hysbysu'r Cyngor yn brydlon am unrhyw beryglon iechyd a diogelwch allai godi mewn perthynas â chyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract hwn.

B8.3 Bydd y Contractwr yn hysbysu'r Cyngor yn syth yn achos unrhyw ddigwyddiad wrth gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract ar y Safle pan fo'r digwyddiad hwnnw yn achosi anaf personol neu ddifrod i eiddo.

B8.4 Bydd y Contractwr yn cydymffurfio â gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 ac unrhyw ddeddfau, gorchmynion, rheoliadau a chodau ymarfer eraill mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, allai fod yn berthnasol i Staff ac unigolion eraill sy'n gweithio ar y Safle wrth gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract.

B8.5 Bydd y Contractwr yn sicrhau bod ei ddatganiad polisi Iechyd a Diogelwch (fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974) ar gael i'r Cyngor pan ofynnir amdano.

## B9. DARPARU GWYBODAETH REOLI A CHYFARFODYDD

B9.1 Bydd y Contractwr, oni chytunwyd fel arall gan y Partïon, yn cyflwyno Gwybodaeth Reoli i'r Cyngor drwy gydol Cyfnod y Contract fel sy'n ofynnol yn unol â Manylion y Contract ac Atodlen 4 y Contract a'r Fanyleb.

B9.2 Bydd y Swyddog Awdurdodedig a'r Rheolwr Contractau ac, os yw'n berthnasol, y Personél Allweddol, yn cyfarfod yn unol â'r manylion a geir ym Manylion y Contract ac yn Atodlen 4 y Contract a'r manylion yn y Fanyleb, a bydd y Contractwr , ym mhob cyfarfod, yn cyflwyno ei Wybodaeth Reoli a ddosbarthwyd eisoes.

B9.3 Bydd y Swyddog Awdurdodedig a'r Rheolwr Contractau yn cyfarfod ar ddiwedd y Flwyddyn Contract ar gyfer cyfarfod adolygu'r Contract.

## B10. MONITRO PERFFORMIAD Y CONTRACT

Bydd y Contractwr yn cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer monitro perfformiad y Gwasanaethau fel y nodir hynny ym Manylion y Contract ac yn Atodlen 4 y Contract yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, ddarparu'r Wybodaeth Reoli, perfformiad y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ac unrhyw gyfryw ddata a gwybodaeth y bydd yn ofynnol i'r Contractwr eu darparu o dan y Contract.

## B11. RHWYMEDIGAETHAU'R CYNGOR

Ac eithrio pan y'u darparwyd yn benodol fel arall, mae rhwymedigaethau'r Cyngor o dan y Contract yn rhwymedigaethau'r Cyngor yn ei rinwedd fel parti i'r contract a bydd dim yn y Contract yn gweithredu fel ymrwymiad i'r Cyngor, ac ni fydd mewn unrhyw ffordd arall yn llyffetheirio na'n cyfyngu'r Cyngor mewn unrhyw rinwedd arall, ac ni fydd y Cyngor wrth gyflawni ei ddyletswyddau a'i bwerau mewn unrhyw rinwedd arall, yn arwain at unrhyw atebolrwydd o dan y Contract (sut bynnag fydd hynny'n codi) ar ran y Cyngor i'r Contractwr.

## B12. <u>GWARANT</u>

B12.1 Mae'r Contractwr yn gwarantu ac yn ymhonni:

a) bod ganddo gapasiti ac awdurdod llawn a'r holl ganiatadau angenrheidiol er mwyn ymrwymo i a chyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract;

b) bod y Contract wedi ei lofnodi neu wedi ei weithredu (yn ôl y digwydd) gan gynrychiolydd neu gynrychiolwyr ag awdurdod priodol (yn ôl y digwydd) y Contractwr;

c) nad yw wedi cyflawni unrhyw Weithred Waharddedig wrth ymrwymo i'r Contract hwn;

d) ar y Dyddiad Cychwyn, bod yr holl wybodaeth, datganiadau a chynrychiolaethau a gynhwysir yn y Tendr yn wir, cywir a heb fod yn gamarweiniol, ac y bydd yn hysbysu'r Cyngor am unrhyw ffaith, mater neu amgylchiadau y gallai ddod yn ymwybodol ohonynt yn ystod Cyfnod y Contract fyddai'n golygu y byddai unrhyw gyfryw wybodaeth, datganiad neu gynrychiolaeth yn anghywir neu'n gamarweiniol;

e) nid oes unrhyw hawliad yn cael ei fynnu ac nid oes unrhyw achos o ymgyfreitha, cymrodeddu neu achos gweinyddol yn mynd rhagddo, neu hyd y gŵyr, bod unrhyw gyfryw achos yn arfaethedig neu'n cael ei fygwth yn ei erbyn neu ei asedau fydd neu allai effeithio ar ei allu i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract hwn;

f) nid yw'n destun unrhyw rwymedigaeth gontractiol, y mae cydymffurfio â hynny yn debygol o effeithio'n niweidiol ar ei allu i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract;

g) nid oes unrhyw achos nac unrhyw gamau eraill wedi cael eu dwyn nac wedi eu gweithredu (nac, hyd y gŵyr, yn cael eu bygwth) ar gyfer dirwyn busnes y Contractwr i ben nac ar gyfer ei ddiddymu nac ar gyfer penodi derbynnydd, derbynnydd gweinyddol, datodwr, rheolwr, gweinyddwr neu swyddog arall cyffelyb mewn perthynas ag unrhyw un o asedau neu refeniw'r Contractwr;

h) mae'n dal, wedi cael neu mae'n gallu cael, trwyddedau dilys ar gyfer yr holl Hawliau Eiddo Deallusol sydd yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract;

i) bydd y Gwasanaethau'n cael eu darparu mewn modd priodol, medrus a gweithgar;

j) bydd y Gwasanaethau'n cael eu darparu a'u gweithredu gan nifer digonol o Staff sydd wedi cael profiad, cymwysterau a hyfforddiant priodol gyda'r holl sgil, gofal a diwydrwydd dyladwy;

k) bydd yn cydymffurfio bob amser â'r Safonau Ansawdd, a phan fo'n briodol dylai gynnal achrediad â'r corff awdurdodi Safonau Ansawdd perthnasol; ac

l) bydd bob amser yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract yn unol â'r Gyfraith ac Arferion Da'r Diwydiant.

B12.2 Mae'r Contractwr yn cydnabod y bydd unrhyw achos o dorri'r gwarantau yng Nghymal B12.1 yn cael ei unioni gan y Contractwr am ddim cost i'r Cyngor ac o fewn cyfnod o amser y bydd y Cyngor yn hysbysu'r Contractwr amdano. Bydd methu â chydymffurfio â'r terfyn amser a nodir gan y Cyngor mewn perthynas â'r Cymal B12.2 hwn yn gyfystyr â thor-contract, a gall y Cyngor derfynu'r Contract hwn yn unol â Chymal D3.1 (Terfynu oherwydd Tor-Contract) neu Gymal D5.1 (c) (Digwyddiadau Terfynu).

## RHAN C – PRIS Y CONTRACT A THALIADAU

### C1. <u>PRIS Y CONTRACT</u>

C1.1 Pris y Contract am y Gwasanaethau fydd y gydnabyddiaeth ariannol lawn a chyfyngedig fydd yn ddyledus i'r Contractwr mewn perthynas â darparu'r Gwasanaethau. Oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig gan y Cyngor, bydd Pris y Contract yn cynnwys pob cost a gwariant ar ran y Contractwr a fydd yn cael eu hysgwyddo'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol mewn cysylltiad â darparu'r Gwasanaethau.

C1.2 Oni nodir fel arall yn y Fanyleb, Manylion y Contract neu'n unol â'r Contract hwn (yn cynnwys Cymal G4 y Gyfraith a Newid yn y Gyfraith) bydd Pris y Contract yn aros yn sefydlog am Gyfnod y Contract mewn perthynas â'r Gwasanaethau.

C1.3 Os ystyrir bod angen gwneud newidiadau i'r Fanyleb a bod hynny'n cael ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan y Swyddog Awdurdodedig, bydd unrhyw newidiadau i Bris y Contract yn cael eu haddasu ym Manylion y Contract.

### C2. <u>TAW</u>

C2.1 Bydd gan y Contractwr, pan fo wedi cofrestru am TAW, hawl i godi TAW ar y Cyngor mewn perthynas â'r Gwasanaethau a ddarperir i'r Cyngor.

C2.2 Bydd y Contractwr yn indemnio'r Cyngor yn barhaus yn erbyn unrhyw atebolrwydd, yn cynnwys unrhyw log, cosbau neu gostau a ysgwyddir a godir, neu a fynnir neu a asesir gan y Cyngor ar unrhyw adeg mewn perthynas â methiant y Contractwr i ystyried neu dalu unrhyw TAW neu unrhyw atebolrwydd arall mewn perthynas â thaliadau a wneir i'r Cyngor o dan y Contract. Bydd unrhyw symiau sy'n ddyledus o dan y Cymal C2.2. hwn yn cael eu talu gan y

Contractwr i'r Cyngor ddim llai nag ugain (20) Diwrnod Gwaith cyn y dyddiad y mae'r TAW neu atebolrwydd arall yn daladwy i'r Cyngor.

## C3. ANFONEBU

C3.1 Oni nodir fel arall yn y Fanyleb neu Fanylion y Contract, bydd y Contractwr yn anfonebu'r Cyngor am daliad Pris y Contract yn unol ag Atodlen 3 ddim hwyrach na saith (7) diwrnod ar ôl diwedd pob Mis (neu unrhyw amledd arall y cytunir arno rhwng y Partïon yn ysgrifenedig). C3.2 Bydd pob anfoneb yn cynnwys rhif yr archeb brynu a ddarperir gan y Cyngor. Ni fydd anfonebau yn cael eu prosesu gan y Cyngor heb rif archeb brynu.

C3.3 Os, yn dilyn cais gan y Cyngor, bydd y Contractwr yn methu heb reswm dilys â darparu cofnodion y gellir eu dilysu er mwyn tystiolaethu i fodlonrwydd rhesymol y Swyddog Awdurdodedig y taliad dyledus am Bris y Contract, bydd gan y Cyngor yr hawl i ddal y taliad yn ôl. Ar ôl i dystiolaeth gael ei darparu, bydd y Cyngor yn dilysu cywirdeb yr anfoneb heb oedi diangen. Ni fydd unrhyw oedi diangen gan y Cyngor wrth ddilysu'r anfonebau yn unol â'r Cymal C3.3 hwn yn gyfiawnhad digonol am fethu â chydnabod bod anfoneb yn ddilys a diddadl.

C3.4 Bydd pob anfoneb yn cynnwys y wybodaeth a nodir yn y Fanyleb a bydd yn nodi rhif yr archeb brynu, unrhyw fanylion perthnasol eraill gan gynnwys y wybodaeth ofynnol a nodir yn Adran 68(9) o Ddeddf Caffael 2023 a dadansoddiad o'r Gwasanaethau a ddarparwyd gan y Contractwr i'r Cyngor. Bydd gan y Cyngor yr hawl i ofyn am fwy o wybodaeth er mwyn gwirio a yw anfoneb yn ddilys a diddadl neu beidio a bydd y Contractwr yn darparu unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani o fewn saith (7) diwrnod o dderbyn y cais gan y Cyngor. Bydd TAW ac unrhyw dreth daladwy arall yn cael eu nodi ar wahân ar anfonebau a byddant yn cael eu nodi fel cost ychwanegol net.

C3.5 Pan fo'r Contractwr yn ymrwymo i Is-gontract mewn perthynas â darparu'r Gwasanaethau, bydd yn sicrhau y bydd Is-gontract ac unrhyw is-gontractau yr ymrwymir iddynt gan Is-gontractwr y Contractwr yn cynnwys darpariaethau fydd â'r un effaith â Chymalau C3.1 i C3.3 ac C4.1. Nid yw'r Cymal 3.5 hwn yn lleihau effaith unrhyw delerau taliadau cynnar y cytunir arnynt efallai rhwng y Contractwr ac unrhyw Is-gontractwr.

C3.6 Bydd y Cyngor yn derbyn ac yn prosesu ar gyfer talu unrhyw anfoneb electronig a gyflwynir gan y Contractwr ar yr amod ei bod yn ddiddadl ac ar ffurf sy'n cydymffurfio â'r safon ar gyfer anfonebu electronig (ac yn defnyddio unrhyw fformatau cysylltiedig) a gymeradwywyd ac a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig o bryd i'w gilydd.

## C4. <u>TALIADAU</u>

C4.1 Oni chytunir fel arall ac yn ddarostyngedig i delerau'r Contract hwn, bydd y Cyngor yn talu am y Gwasanaethau a ddarperir unrhyw symiau dilys a diddadl sy'n ddyledus i'r Contractwr mewn cronfeydd sydd wedi eu clirio o fewn tri deg (30) diwrnod o dderbyn anfoneb ddilys a diddadl.

C4.2 Petai'r Cyngor angen mwy o wybodaeth gan y Contractwr i ddilysu a gwirio anfoneb a dderbyniwyd gan y Contractwr, bydd taliad o symiau dilys a diddadl yn cael ei wneud o fewn tri deg (30) diwrnod o dderbyn y cyfryw ddogfennaeth

ategol gan y Contractwr. Mae anfoneb Contractwr yn ddilys os yw'n cynnwys y wybodaeth ofynnol a nodir yn Adran 88(7) o Ddeddf Caffael 2023 yn unig.

Pan nad yw unrhyw anfoneb yn cydymffurfio â gofynion y Cyngor a nodir yng nghymal C4.2, neu os yw'r Cyngor yn anghytuno â’r anfoneb, bydd y Cyngor yn hysbysu'r Contractwr heb oedi diangen a bydd y Contractwr yn cyflwyno anfoneb newydd yn brydlon a fydd yn cydymffurfio â'r gofynion hynny.

C4.3 Bydd y Cyngor yn gwneud pob taliad i’r Contractwr drwy wasanaeth clirio awtomatig y bancwyr (BACS).

C4.4 Ac eithrio oherwydd rhesymau y tu hwnt i reolaeth y Cyngor, pan na fo’r Cyngor wedi gwneud taliad i’r Contractwr erbyn y dyddiad dyledus, bydd y Cyngor, ar gais ysgrifenedig y Contractwr, yn talu llog i’r Contractwr ar unrhyw swm dyledus yn ôl cyfradd o 4% uwchben cyfradd sylfaenol Banc HSBC. Mae’r Partïon yn cytuno bod cyfradd o’r fath yn gam unioni contractiol sylweddol at ddiben Deddf Hwyr-dalu Dyledion Masnach (Llogau) 1998, a bydd y cyfryw log yn daladwy o’r dyddiad talu dyledus nes bod y taliad yn cael ei wneud mewn gwirionedd.

C4.5 Pryd bynnag, o dan y Contract neu unrhyw gontract arall rhwng y Partïon, fo swm o arian i’w adennill oddi wrth neu’n daladwy gan y Contractwr (yn cynnwys unrhyw swm y mae’r Contractwr yn atebol i’w dalu i’r Cyngor mewn perthynas ag unrhyw achos o dorri’r Contract), gall y Cyngor yn unochrog ddidynnu’r swm hwnnw o unrhyw swm fydd yn ddyledus ar yr adeg honno, neu a fydd yn ddyledus yn ddiweddarach i’r Contractwr o dan y Contract.

C4.6 Bydd unrhyw ordaliad gan y naill Barti neu’r llall, p’un a bod hynny’n Bris y Contract neu’n TAW neu fel arall, yn swm o arian y gellir ei adennill gan y Parti a wnaeth y gordaliad oddi wrth y Parti a dderbyniodd y gordaliad.

Mae'n rhaid i'r Contractwr sicrhau bod pob Is-gontractwr yn cael ei dalu'n llawn cyn pen 30 diwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y derbynnir anfoneb gan y Contractwr mewn perthynas â'r swm; neu, os yw'n hwyrach, y dyddiad y mae'r taliad yn ddyledus yn unol â'r anfoneb, yn amodol ar gadarnhau'r anfoneb fel un ddilys a diddadl. Ar ddiwedd Blwyddyn y Contract, ar ei draul ei hun, bydd y Contractwr yn darparu adroddiad i'r Cyngor yn dangos ei fod yn cydymffurfio â'r cymal hwn.

Os nad yw'r anfoneb yn cael ei thalu yn unol â'r amserlenni yng nghymal C4.6, gall y Cyngor gyhoeddi manylion y taliad hwyr neu'r diffyg taliad.

## C5. <u>TRETHIANT, YSWIRIANT GWLADOL AC ATEBOLRWYDD CYFLOGAETH</u>

Mae’r Partïon yn cydnabod ac yn cytuno bod y Contract yn gontract ar gyfer darparu gwasanaethau, ac nad yw’n gontract cyflogaeth. Bydd y Contractwr bob amser yn indemnio’r Cyngor ac yn parhau i indemnio’r Cyngor yn llawn ac yn erbyn pob hawliad, achos, camau, digolledion, costau, treuliau, atebolrwydd ac unrhyw ofynion sut bynnag fo hynny yn codi ac o dan pa bynnag amgylchiadau, pryd yr honnir neu y penderfynir bod y Cyngor wedi cymryd neu ysgwyddo’r atebolrwydd neu’r cyfrifoldeb am y Staff (neu unrhyw rai ohonynt) fel cyflogwr y Staff a/neu unrhyw atebolrwydd neu gyfrifoldeb i Gyllid a Thollau EM fel cyflogwr

y Staff boed hynny yn ystod Cyfnod y Contract neu'n deillio o derfynu neu ddiweddu'r Contract.

## RHAN D - TERFYNU CONTRACT A CHANLYNIADAU TERFYNU

### D1. TERFYNU OHERWYDD ANSOLFEDD NEU DDIGWYDDIADAU CYSYLLTIEDIG

D1.1 Heb effeithio ar unrhyw hawl arall na chamau unioni sydd ar gael iddo, gall y Cyngor derfynu'r Contract yn syth drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Contractwr os:

a) bydd y Contractwr yn gohirio neu'n bygwth gohirio talu ei ddyledion neu nad yw'n gallu talu ei ddyledion pan fyddant yn ddyledus neu'n cyfaddef ei anallu i dalu ei ddyledion; neu

b) mae'r Contractwr yn cychwyn trafodaethau gyda'i holl gredydwyr neu unrhyw ddosbarth ohonynt gyda'r amcan o aildrefnu unrhyw rai o'i ddyledion, neu'n cynnig neu'n ymrwymo i unrhyw gyfaddawd neu drefniant gyda'i gredydwyr; neu

c) mae deiseb yn cael ei chyflwyno, hysbysiad yn cael ei roi, datrysiad yn cael ei basio, neu orchymyn yn cael ei roi, ar gyfer neu mewn cysylltiad â dirwyn busnes y Contractwr i ben; neu

d) cyflwynir cais i'r llys, neu rhoddir gorchymyn i benodi gweinyddwr, neu os rhoddir rhybudd o fwriad i benodi gweinyddwr neu os penodir gweinyddwr i ymgymryd â busnes y Contractwr; neu

e) mae deiliad arwystl ansefydlog cymwys ar asedau'r Contractwr wedi cael yr hawl i benodi neu wedi penodi derbynnydd gweinyddol; neu

f) mae person wedi cael yr hawl i benodi derbynnydd am asedau'r Contractwr, neu y penodir derbynnydd am asedau'r Contractwr; neu

g) mae credydwr neu lyffeitheiriwr y Contractwr yn atodi neu'n meddiannu, neu mae proses atafaelu, gweithredu, gorfodogaeth neu unrhyw broses gyffelyb arall yn cael ei atafaelu neu ei orfodi neu ei erlyn yn erbyn holl asedau'r Contractwr neu ran ohonynt, ac nad yw atodyn neu broses yn cael ei rhyddhau o fewn deg (10) diwrnod; neu

h) mae unrhyw ddigwyddiad, neu achos yn cael ei ddwyn, mewn perthynas â'r Contractwr mewn unrhyw awdurdodaeth y mae'n ddarostyngedig iddo sydd â'r un effaith neu effaith gyffelyb i unrhyw un o'r digwyddiadau y cyfeirir atynt yn y Cymal hwn; neu

i) mae'r Contractwr yn gohirio neu'n rhoi'r gorau, neu'n bygwth gohirio neu roi'r gorau i barhau â'i holl fusnes neu ran sylweddol ohono.

### D2. TERFYNU OHERWYDD NEWID RHEOLAETH

D2 Bydd y Contractwr yn hysbysu'r Cyngor ar unwaith os bydd newid Rheolaeth o ran y Contractwr. Gall y Cyngor derfynu'r contract yn syth drwy roi rhybudd ysgrifenedig o fewn chwe (6) Mis o'r canlynol:

a) gael ei hysbysu bod Newid Rheolaeth wedi digwydd; neu

b) pan na hysbyswyd y Cyngor, y dyddiad y daw'r Cyngor yn ymwybodol o'r newid Rheolaeth,

ond ni chaniateir iddo derfynu pan roddwyd Caniatâd cyn y newid Rheolaeth.

**D3. <u>TERFYNU OHERWYDD TOR-CONTRACT</u>**

D3.1 Heb leihau effaith Cymal D3.2 gall yr y Cyngor derfynu'r Contract ar unwaith drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Contractwr os bydd y Contractwr yn torri'r contract, ac os:

a) na fydd y Contractwr wedi unioni'r Tor-contract mewn modd sy'n dderbyniol i'r Cyngor o fewn ugain (20) Diwrnod Gwaith, neu unrhyw gyfnod arall allai'r Cyngor ei bennu, ar ôl rhoi hysbysiad sy'n nodi'r Tor-contract a chais i'w unioni; neu

b) na ellir, ym marn y Cyngor, unioni'r Tor-contract.

D3.2 Er gwaethaf Cymal D3.1 gall y Cyngor derfynu'r Contract ar unwaith drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Contractwr os:

a) bydd y Contractwr dro ar ôl tro yn torri unrhyw un o delerau'r Contract hwn mewn modd fyddai'n cyfiawnhau'r farn bod ei ymddygiad yn anghyson â bod â'r bwriad neu'r gallu i weithredu telerau'r Contract hwn; neu

b) canfyddir bod unrhyw warant a roddir gan y Contractwr yn y Contract hwn yn anghywir neu'n gamarweiniol; neu

c) mae'r Contractwr yn methu â bodloni unrhyw un o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (os yn gymwys) mewn tri (3) Chyfnod Rheoli Perfformiad olynol; neu

d) yn unol ag Adran 78 ac Adran 79 (lle bo'n berthnasol) o Ddeddf Caffael 2023, ac ar yr amod bod gofynion Adran 78(7) o Ddeddf Caffael 2023 wedi'u bodloni, lle:

e. mae'r Cyngor o'r farn bod y Contract wedi'i ddyfarnu neu ei addasu gan dorri Deddf Caffael 2023 neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno mewn modd perthnasol

f. mae'r Contractwr, ers dyfarnu'r Contract, wedi dod yn gyflenwr gwaharddedig neu'n gyflenwr gwaharddadwy (gan gynnwys drwy gyfeirio at berson â chyswllt) fel y nodir yn Adran 57 o Ddeddf Caffael 2023 ac ymhellach ar yr amod bod yr amodau a nodir yn Adran 78(8) o Ddeddf Caffael 2023 wedi'u bodloni; a/neu

g. mae unrhyw Is-gontractwr y gofynnodd y Cyngor am wybodaeth amdano o dan Adran 28(1)(a) o Ddeddf Caffael 2023, mewn perthynas â dyfarnu'r Contract, yn gyflenwr gwaharddedig neu'n gyflenwr gwaharddadwy fel y nodir yn Adran 57 o Ddeddf Caffael 2023, ac ymhellach ar yr amod bod yr amodau yn Adran 78(3)(b) a 78(8) o Ddeddf Caffael 2023 wedi'u bodloni;

e) mae'r Contractwr yn methu ag ymrwymo i gytundeb cyfreithiol rwymol gydag unrhyw Is-gontractwr yn unol ag Adran 72 o Ddeddf Caffael 2023; a/neu

f) mae unrhyw Is-gontractwr a ddaeth yn Is-gontractwr ar ôl dyfarnu'r Contract yn gyflenwr gwaharddedig neu'n gyflenwr gwaharddadwy fel y'i diffinnir yn Adran 57 o Ddeddf Caffael 2023, ar yr amod, cyn arfer ei hawl i derfynu o dan y Cymal D3.2 (f) hwn, bod y Cyngor wedi:

e. hysbysu'r Contractwr o'i fwriad i derfynu'r contract o dan y Cymal hwn, a'r rhesymau pam y mae'r Cyngor wedi penderfynu terfynu'r Contract;

f. rhoi cyfle rhesymol i'r Contractwr gyflwyno sylwadau ynghylch a yw'r Cymal hwn yn gymwys a phenderfyniad y Cyngor i derfynu; a

g. rhoi cyfle rhesymol i'r Contractwr ddod â'i Is-gontract i ben gyda'r cyflenwr gwaharddedig neu'r cyflenwr gwaharddadwy, ac os oes angen, dod o hyd i Is-gontractwr arall.

D3.3 Os bydd y Cyngor yn methu â thalu i'r Contractwr symiau dilys a diddadl o arian pan fyddant yn ddyledus, bydd y Contractwr yn hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig am unrhyw gyfryw fethiant i dalu. Os bydd y Cyngor yn methu â thalu'r cyfryw symiau dilys a diddadl o fewn naw deg (90) Diwrnod Gwaith o ddyddiad o'r cyfryw hysbysiad ysgrifenedig, gall y Contractwr derfynu'r Contract yn syth yn ysgrifenedig, cyn belled nad yw'r cyfryw hawl i derfynu yn gymwys pan fo'r methiant i dalu o ganlyniad i'r Cyngor yn ymarfer ei hawliau o dan y Contract hwn i adennill symiau gan y Contractwr.

D3.4 Mewn perthynas ag unrhyw hawl gan y Cyngor i derfynu'r Contract yn unol â Chymal D1 (Terfynu oherwydd Ansolfedd a Digwyddiadau Eraill) neu Gymal D2 (terfynu oherwydd Newid Rheolaeth) neu Gymal D3 (Terfynu oherwydd Tor-Contract), gall y Cyngor, yn ôl ei ddisgresiwn absoliwt ei hun, ddewis terfynu'r Contract yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

## D4. <u>TERFYNU OHERWYDD CYFLEUSTOD</u>

D4.1 Gall y Cyngor derfynu'r Contract hwn ar unrhyw adeg drwy roi tri (3) Mis o rybudd ysgrifenedig i'r Contractwr.

## D5. <u>DIGWYDDIADAU TERFYNU</u>

D5.1 Heb effeithio ar unrhyw hawl arall na chamau unioni sydd ar gael iddo, gall y Cyngor derfynu’r Contract yn syth drwy roi rhybudd ysgrifenedig i’r Contractwr os:

a) bydd y Contractwr yn cael ei ddyfarnu'n euog o gyflawni trosedd y mae’r Cyngor yn barnu ei bod yn berthnasol i ddarparu'r Gwasanaethau; neu

b) mae yna risg neu mae’r Cyngor yn credu y bydd enw da’r Cyngor yn cael ei niweidio o ganlyniad i barhau â’r Contract; neu

c) yn unol â B12.2; neu

d) yn unol â Chymal G3.7 y Contract ac mae’r Cyngor yn dewis terfynu’r Contract yn dilyn y weithdrefn yng Nghymal G3.8 (Atal Gweithredoedd Gwaharddedig, Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth); neu

e) mae’r Contract wedi bod yn destun amrywio sylweddol nad yw’n cydymffurfio ag unrhyw rai o egwyddorion amrywio Cymal H1.3 ac mae’r Cyngor yn dewis terfynu’r Contract yn unol â Chymal H1.7 neu Gymal H1.5 (e) (Amrywio’r Contract); neu

f) yn unol â Chymal H7.3 (Force Majeure); neu

g) yn unol â Chymal H9.3 (Gwrthdaro Buddiannau); neu

h) yn unol â Chymal F3.9 (Diogelu Data); neu

i) Mae’r Contractwr neu unrhyw Bersonau Cysylltiedig neu Bersonau â Chyswllt (o fewn ystyr Deddf Caffael 2023), ar adeg dyfarnu’r Tendr, wedi cael eu dyfarnu'n euog o unrhyw un neu ragor o’r seiliau gorfodol ar gyfer gwahardd rhag cymryd rhan yn y Tendr fel y nodir hynny yn Atodlen 6 o Ddeddf Caffael 2023 neu

j) Ni ddylid fod wedi dyfarnu’r Tendr i’r Contractwr o ystyried torri’r rhwymedigaethau o dan Gytuniad yr Undeb Ewropeaidd a Chytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (y TFEU) a Chyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus 2014/24/EU mewn modd difrifol sydd wedi cael eu datgan gan Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd mewn gweithdrefn o dan Erthygl 258 y TFEU.

## D6. <u>CANLYNIADAU TERFYNU NEU DDOD I BEN</u>

D6.1 Yn ddarostyngedig i Gymalau D6.2 a D6.3, pa fo’r Cyngor yn terfynu’r Contract yn gyfan gwbl neu’n rhannol, bydd y Cyngor yn atebol am dalu i’r Contractwr ddim ond am yr elfennau hynny o Bris y Contract, os o gwbl, sydd wedi eu hysgwyddo neu eu cronni’n briodol yn unol â’r Contract, neu ran o’r Contract a weithredwyd cyn adeg y terfynu cyn belled bod y Contractwr yn tystiolaethu am hynny mewn modd sy’n dderbyniol i’r Cyngor. Os na fydd y terfynu neu’r terfynu rhannol yn digwydd yn syth, bydd y Contractwr yn cymryd pob cam rhesymol i liniaru unrhyw gyfryw gostau. Pan fo’r contractwr yn dal yswiriant, bydd y

Contractwr yn lleihau ei gostau na ellir eu hosgoi drwy unrhyw symiau yswiriant sydd ar gael.

D6.2 Ni fydd y Cyngor yn atebol o dan Gymal D6.1 i dalu unrhyw swm:

a) y gellid ei hawlio o dan yswiriant a ddaliwyd gan y Contractwr, a bod y Contractwr wedi methu â hawlio yn erbyn ei yswiriant, neu wedi methu â hawlio yn unol â gofynion gweithdrefnol y polisi yswiriant; neu

b) pan ychwanegir hynny at unrhyw symiau a dalwyd neu sy'n ddyledus i'r Contractwr o dan y Contract, sydd yn fwy na'r cyfanswm fyddai wedi bod yn daladwy i'r Contractwr pe na fyddid wedi terfynu'r Contract cyn i Gyfnod y Contract ddod i ben.

D6.3 Bydd gan y Cyngor:

a) hawl i adennill gan y Contractwr (neu ei gynrychiolwyr yn ôl y digwydd) unrhyw elfennau o Bris y Contract, os o gwbl, a dalwyd ymlaen llaw am Wasanaethau nad ydynt wedi'u darparu ar ddyddiad y terfynu;

b) hawl i adennill gan y Contractwr, fel dyled, y costau a ysgwyddwyd o fewn rheswm wrth wneud trefniadau eraill, yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â phenodi Contractwr Newydd, ac unrhyw wariant ychwanegol a ysgwyddir gan y Cyngor drwy gydol gweddill Cyfnod y Contract cyn belled â bod y Cyngor yn cymryd camau rhesymol i liniaru'r cyfryw wariant ychwanegol;

c) ni fydd yn rhwymedig i wneud unrhyw daliadau pellach i'r Contractwr nes bod y Cyngor wedi sefydlu cost derfynol gwneud unrhyw drefniadau eraill neu benodi Contractwr Newydd (os yw hynny'n berthnasol);

d) bydd yn cynnwys costau cysylltiedig â'r amser a dreuliwyd gan ei swyddogion yn terfynu'r Contract a gwneud trefniadau eraill ar gyfer cyflenwi'r Gwasanaethau neu unrhyw ran ohonynt wrth asesu'r costau;

e) petai unrhyw swm o arian sy'n ddyledus gan y Contractwr i'r Cyngor yn fwy nag unrhyw swm o arian sy'n ddyledus gan y Cyngor i'r Contractwr o dan y Contract hwn, bydd gan y Cyngor, yn ôl ei ddisgresiwn ei hun, yr hawl i dynnu'r swm hwnnw o unrhyw gontract cyfredol neu gontract yn y dyfodol rhwng y Partïon; a

f) bydd ganddo hawl i adennill unrhyw ddyled sy'n ddyledus gan y Contractwr i'r Cyngor drwy lysoedd Cymru a Lloegr neu unrhyw awdurdodaeth berthnasol arall.

D6.4 Pan derfynir y Contract am ba bynnag reswm, bydd y Contractwr yn:

a) dychwelyd i'r Cyngor yn syth pob Gwybodaeth Gyfrinachol, Data Personol ac Eiddo Deallusol y Cyngor sydd yn ei feddiant neu ym meddiant neu dan reolaeth unrhyw gontractwr neu Is-gontractwr a ganiateir, a gafwyd neu a gynhyrchwyd yn ystod darparu'r Gwasanaethau;

b) rhoi i'r Cyngor yn syth yr holl Eiddo (yn cynnwys deunyddiau, dogfennau, gwybodaeth ac allweddau mynediad) a ddarparwyd i'r Contractwr o dan Gymal B5 (Eiddo)**.** Bydd y cyfryw eiddo yn cael ei roi yn ôl mewn cyflwr da ac yn unol â Chymal B5.1;

c) cynorthwyo ac yn cydweithredu â'r Cyngor er mwyn sicrhau trosglwyddo darpariaeth y Gwasanaethau yn drefnus i unrhyw Gontractwr Newydd a/neu gwblhau unrhyw waith sydd ar y gweill;

d) darparu'n brydlon yr holl wybodaeth mewn perthynas â darparu'r Gwasanaethau y gall y Cyngor o fewn rheswm ofyn amdanynt at ddibenion deall yn ddigonol sut y darparwyd y Gwasanaethau neu at ddibenion galluogi'r Cyngor neu'r Contractwr Newydd i gynnal diwydrwydd dyladwy;

e) rhoi trwydded i'r Cyngor neu ei asiantau a benodwyd i gael mynediad (at ddibenion adfer) i unrhyw safle sy'n perthyn i'r Contractwr ble bydd unrhyw gyfryw eitemau y cyfeiriwyd atynt uchod yn cael eu dal;

f) caniatáu i'r Cyngor gaffael y cyfryw Eiddo sy'n eiddo i'r Contractwr yn unol â darpariaethau'r Fanyleb. Os na ddarparwyd mecanwaith o'r fath, gall y Cyngor ddewis prynu'r Eiddo am bris y farchnad neu bris llyfr (pa un bynnag yw'r rhataf); a

g) sicrhau, pan fo'r Contractwr wedi prydlesu unrhyw Offer, bod y ddogfen rhwng y Contractwr a'r trydydd parti yn cynnwys darpariaethau sy'n caniatáu aseinio buddiant y cyfryw brydles i naill ai'r Contractwr Newydd neu'r Cyngor, yn ôl y digwydd, ar delerau nad ydynt yn llai ffafriol na'r rhai sy'n gynwysedig yn y brydles rhwng y Contractwr a'r cyfryw drydydd parti yn ôl disgresiwn y Cyngor.

D6.5 Ac eithrio fel y darperir yn benodol fel arall yn y Contract, ni fydd terfynu neu ddiweddu'r Contract hwn yn effeithio ar unrhyw hawl, camau unioni neu rwymedigaethau a gronnwyd o dan y Contract hwn cyn y terfynu neu'r diweddu, ac ni fydd dim yn y Contract yn effeithio ar hawl y naill Barti na'r llall i adennill unrhyw swm dyledus ar adeg y cyfryw derfynu neu ddiweddu.

## D7. <u>GWEITHDREFN DATRYS ANGHYDFODAU</u>

D7.1 Os bydd anghydfod yn deillio o'r Contract hwn neu'n gysylltiedig ag ef, neu mewn perthynas â'i berfformiad, dilysrwydd neu ei orfodadwyedd, bydd y Partïon yn dilyn y weithdrefn a nodir yn y Cymal hwn:

a) bydd y naill Barti yn rhoi hysbysiad Anghydfod ysgrifenedig i'r llall, gan nodi ei natur a'i fanylion llawn (yr "Hysbysiad Anghydfod"), ynghyd â dogfennau ategol perthnasol. Ar ôl rhoi'r Hysbysiad Anghydfod, bydd y Swyddog Awdurdodedig a'r Rheolwr Contractau yn ymdrechu i ddatrys yr Anghydfod yn ddidwyll;

b) os na fydd y Swyddog Awdurdodedig a'r Rheolwr Contractau am ba bynnag reswm yn gallu datrys yr Anghydfod o fewn ugain (20) Diwrnod

Gwaith o roi'r Hysbysiad Anghydfod, bydd yr Anghydfod yn cael ei gyfeirio at eu huwch-reolwyr perthnasol fydd yn ymdrechu i'w ddatrys yn ddidwyll;

c) os na fydd yr Anghydfod wedi ei ddatrys o fewn ugain (20) Diwrnod Gwaith o'i roi i'r uwch-reolwyr, bydd y Partïon yn ymdrechu i'w ddatrys drwy gyfryngu yn unol â'r polisïau a fabwysiadwyd gan y Cyngor Cyfryngu Sifil. Oni chytunir fel arall rhwng y partïon, bydd y cyfryngwr yn cael ei benodi gan y Cyngor Cyfryngu Sifil. I gychwyn y cyfryngu, bydd Parti yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r parti arall ynglŷn â'r Anghydfod, gan geisio cyfryngiad. Bydd y Partïon yn ymdrechu i gychwyn ar y cyfryngu ddim hwyrach na tri deg (30) Diwrnod Gwaith ar ôl dyddiad y cais i gyfryngu.

D7.2 Ni fydd cychwyn Anghydfod neu gyfryngu yn atal y partïon rhag cychwyn neu barhau ag achos llys mewn perthynas â'r Anghydfod a bydd Cymal H12 (Cyfraith Lywodraethu ac Awdurdodaeth) yn gymwys bob amser.

## D8. <u>GOROESI</u>

D8.1 Y Cymalau fydd yn goroesi terfynu neu ddiweddu'r Contract yw:

Cymal D6 Canlyniadau terfynu a dod i ben;
Cymal D7 Gweithdrefn Datrys Anghydfodau;
Cymal E2 Atebolrwydd
Cymal F1 Eiddo Deallusol;
Cymal F2 Cyfrinachedd a Chyhoeddusrwydd;
Cymal F3 Diogelu Data;
Cymal F4 Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol;
Cymal F6 Cadw Cofnodion, Mynediad Archwilio a Monitro;
Cymal G3 Atal Gweithredoedd Gwaharddedig, Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth;
Cymal G5 Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE) ac Aildendro;
Cymal H5 Gwahanu;
Cymal H11 Peidio ag Erfyn; a
Cymal H12 Cyfraith Lywodraethu ac Awdurdodaeth

## RHAN E - YSWIRIANT AC ATEBOLRWYDD

## E1. <u>YSWIRIANT</u>

E1.1 Bydd y Contractwr ar ei gost ei hun yn gweithredu a chynnal yr Yswiriant Gofynnol gyda chwmni yswiriant ag enw da gydag o leiaf y lefelau a nodir ym Manylion y Contract. Bydd y cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn gysylltiedig â phob digwyddiad neu gyfres o ddigwyddiadau cysylltiedig sy'n deillio o'r un achos o ran atebolrwydd cyflogwr, pob digwyddiad neu gyfres o ddigwyddiadau cysylltiedig sy'n deillio o'r un achos o ran atebolrwydd cyhoeddus ac unrhyw un cyfnod o yswiriant ar gyfer atebolrwydd cynnyrch (os bydd angen). Bydd y Contractwr yn sicrhau bod unrhyw Is-gontractwr yn trefnu a chynnal y cyfryw yswiriant ac yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw Is-gontractwr yn cynnal yswiriant

sy'n gymesur â'r Yswiriant Gofynnol ar gyfer cyfnod y Contract. Ni fydd y rhwymedigaethau yn y Cymal E1.1 hwn yn effeithio ar atebolrwydd y Contractwr am weithredoedd a hepgorion Is-gontractwyr yn unol â Chymal H6.3.

E1.2 Bydd y sicrwydd o dan yr Yswiriant Gofynnol yn gysylltiedig â'r holl risgiau allai'r Contractwr eu hysgwyddo, sy'n deillio o berfformiad y Contractwr o'r Contract, yn cynnwys marwolaeth neu anafiadau personol, colli neu ddifrodi eiddo neu unrhyw golled arall, a bydd am nifer anghyfyngedig o hawliadau yn ystod unrhyw un (1) cyfnod o yswiriant.
Bydd polisïau o'r fath yn cynnwys sicrwydd mewn perthynas ag unrhyw golled ariannol fydd yn deillio o unrhyw gyngor a roddir neu na roddir gan y Contractwr.

E1.3 Bydd y Contractwr yn rhoi i'r Cyngor, ar gais, gopïau o'r holl bolisïau yswiriant sy'n cynnwys yr Yswiriant Gofynnol neu wiriad yswiriant gan frocer er mwyn arddangos bod yr Yswiriant Gofynnol wedi'i drefnu, ynghyd â derbynebau neu dystiolaeth arall o daliad o'r premiymau dyledus diwethaf o dan y polisïau hynny.

E1.4 Os, am ba bynnag reswm, bydd y Contractwr yn methu â rhoi grym i'r Yswiriant Gofynnol ac yn methu â'i gynnal, gall y Cyngor wneud trefniadau eraill er mwyn diogelu ei fuddiannau, a gall adennill costau trefniadau o'r fath gan y Contractwr.

E1.5 Ni fydd telerau unrhyw yswiriant yn rhyddhau'r Contractwr o unrhyw atebolrwydd o dan y Contract.

E1.6 Bydd y Contractwr bob amser yn cymryd camau rhesymol i leihau a lliniaru unrhyw golled y mae gan y Cyngor yr hawl i ddwyn hawliad yn erbyn y Contractwr mewn perthynas â hi.

E1.7 Ni fydd y Contractwr yn cymryd unrhyw gamau nac yn methu â chymryd unrhyw gamau rhesymol neu'n caniatáu i unrhyw beth ddigwydd mewn perthynas â hynny fyddai'n rhoi hawl i unrhyw yswiriwr wrthod talu am unrhyw hawliad o dan unrhyw bolisi yswiriant a gynhelir yn unol â Chymal E1.1.

E1.8 Ni fydd hunanyswiriant yn dderbyniol oni awdurdodwyd hynny yn ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Cyngor.

E1.9 Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl, yn ôl ei ddisgresiwn ei hun, i ofyn o fewn rheswm am i'r symiau yswiriant gael eu hadolygu yn ystod adolygiad petai'r Cyngor yn dyfarnu bod hynny'n angenrheidiol.

E1.10 Gellid ystyried bod methiant ar ran y Contractwr i gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Cymal hwn yn achos o dorri'r Contract hwn a bydd Cymal D3 yn gymwys.

## E2. <u>ATEBOLRWYDD</u>

E2.1 Ni ellir dehongli bod dim yn y Contract hwn na'r Cymal E2 hwn yn cyfyngu nac eithrio atebolrwydd unrhyw barti am:

a) farwolaeth neu anaf corfforol a achosir oherwydd ei esgeulustod; neu

b) dwyll neu gamliwio twyllodrus; neu

c) unrhyw achos o dorri rhwymedigaethau sydd ymhlyg yn adran 12 Deddf Gwerthu Nwyddau 1979 neu adran 2 Deddf Cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau 1982;

E2.2 Yn ddarostyngedig i Gymal E2.1 bydd cyfanswm atebolrwydd cyfanredol y Contractwr mewn perthynas â'r indemniadau yng Nghymal C2.2 (TAW), C5 (Trethiant, Yswiriant Gwladol ac Atebolrwydd Cyflogaeth), Cymal F1.5 (Eiddo Deallusol), Cymal F3 ac Atodlen 5 (Diogelu Data) (ac ym mhob achos boed hynny cyn neu ar ôl gwneud hawliad yn unol â'r indemniadau ynddynt) yn anghyfyngedig.

E2.3 Bydd y Contractwr yn indemnio'r Cyngor ac yn parhau i'w indemnio yn llawn rhag ac yn erbyn hawliad, achos, camau, digollediad, costau, treuliau ac unrhyw atebolrwydd ym mha ffordd bynnag fyddant yn deillio o neu o ganlyniad i gyflenwi Gwasanaethau, neu eu cyflenwi'n hwyr neu honedig, neu gyflawni neu ddiffyg cyflawni gan y Contractwr neu Staff ei rwymedigaethau o dan y Contract neu bresenoldeb y Contractwr neu unrhyw Staff ar y Safle, yn cynnwys mewn perthynas ag unrhyw farwolaeth neu anaf personol, colli neu ddifrod i eiddo, colled ariannol yn deillio o unrhyw gyngor a roddir neu na roddir gan y Contractwr neu Staff, neu unrhyw golled arall a achosir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan unrhyw weithred neu hepgoriad gan y Contractwr neu Staff. Ni fydd y Contractwr yn gyfrifol am unrhyw niwed, colled, difrod, cost neu draul os bydd yn cael ei achosi gan esgeulustod neu gamymddwyn bwriadol gan y Cyngor neu dorri rhwymedigaethau'r Cyngor o dan y Contract, ac i'r graddau hynny.

E2.4 Yn ddarostyngedig i Gymal E2.1 a Chymal E2.3, bydd atebolrwydd y Cyngor yn gyfyngedig i'r swm a delir i'r Contractwr am y Gwasanaethau a ddarperir yn ystod y Flwyddyn Contract flaenorol, neu os nad oes Blwyddyn Contract flaenorol, y swm a delir yn ystod y Flwyddyn Contract gyfredol.

E2.5 Ni fydd y naill Barti, mewn unrhyw achos, yn atebol i'r llall am unrhyw :

a) golli elw;

b) golli busnes;

c) golli refeniw; neu

d) golli neu niwed i ewyllys da.

E2.6 Gall y Cyngor, ymysg pethau eraill, adennill fel colled uniongyrchol:

a) unrhyw dreuliau gweithredol a/neu weinyddol ychwanegol yn cynnwys dirwyon sy'n deillio o Dor-contract y Contractwr;

b) unrhyw wariant a wastraffwyd neu gostau a ddyfarnwyd yn ddiangen a/neu a ysgwyddwyd gan y Cyngor sy'n deillio o Dor-contract y Contractwr;
a

c) cost ychwanegol unrhyw wasanaethau amnewid am weddill Cyfnod y Contract
ar ôl terfynu'r Contract o ganlyniad i Dor-contract y Contractwr.

E2.7 Bydd y Contractwr yn indemnio'r Cyngor yn llawn ac yn parhau i'w indemnio bob amser yn erbyn unrhyw atebolrwydd fydd yn deillio o dan y Cymal E2

**Atebolrwydd** yma na ellir ei Yswirio.

E2.8 Ni fydd dim yn y Contract hwn yn gosod unrhyw atebolrwydd ar y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd sydd gan y Contractwr i unrhyw berson arall, ond ni fydd hynny'n eithrio nac yn cyfyngu ar unrhyw atebolrwydd fydd gan y Cyngor i'r Contractwr allai godi o ganlyniad i naill ai dorri'r Contract neu esgeulustod ar ran y Cyngor, cyflogeion, gweision neu asiantau y Cyngor.

E2.9 O dan y Cymal E2 **Atebolrwydd** hwn bydd y Contractwr yn gyfrifol, fel yn erbyn y Cyngor, am weithredoedd neu hepgorion Staff ac unrhyw Is-gontractwr fel petaent yn weithredoedd neu hepgorion y Contractwr ei hun.

## RHAN F - DIOGELU GWYBODAETH

### F1. <u>EIDDO DEALLUSOL</u>

F1.1 Bydd y Cyngor yn cadw perchnogaeth ar ei holl Hawliau Eiddo Deallusol mewn unrhyw fanylebau, cyfarwyddiadau, cynlluniau, data, lluniadau, cronfeydd data, patentau, patrymau, modelau, dyluniadau neu unrhyw ddeunydd arall a ddarperir i'r Contractwr gan y Cyngor.

F1.2 Bydd unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol a grëir o ganlyniad i'r Gwasanaethau, yn cynnwys y rhai a baratoir neu a grëir gan neu ar ran y Contractwr (yn cynnwys Gwaith a Dyfeisiau), yn eiddo i'r Cyngor oni bai fod y Swyddog Awdurdodedig wedi rhoi caniatâd fel arall.

F1.3 Mae'r Contractwr drwy hyn yn gwarantu, neu bydd yn sicrhau gwarant uniongyrchol, i'r Cyngor (ar ddim cost i'r Cyngor) drwydded fythol-barhaus, heb freindal, gwastadol, anghyfyngedig i'w Hawliau Eiddo Deallusol, a bydd yn caniatáu i'r Cyngor ddefnyddio'r Hawliau Eiddo Deallusol at unrhyw ddiben mewn perthynas â gweithgaredd y busnes neu swyddogaeth y Cyngor, cyn belled, ym mhob achos, na fydd y cyfryw hawliau yn ymestyn i gamfanteisio masnachol ar Hawliau Eiddo Deallusol y Contractwr. Bydd y drwydded hon yn cynnwys yr hawl i is-drwyddedu i drydydd parti (yn cynnwys, fel na fydd amheuaeth, unrhyw Gontractwr Newydd neu unrhyw drydydd parti arall a wahoddir gan y Cyngor i gymryd rhan mewn proses dendro ar gyfer dyfarnu contract i gyflenwi gwasanaethau amnewid).

F1.4 Bydd y Contractwr yn caffael cymeradwyaethau priodol cyn defnyddio unrhyw ddeunydd, mewn perthynas â pherfformiad y Contract sydd neu allai fod yn ddarostyngedig i unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol trydydd parti.

F1.5 Bydd y Contractwr yn indemnio'r Cyngor yn erbyn pob hawliad, galwad, achos, cost, traul (yn cynnwys costau cyfreithiol a threuliau ar sail cyfreithiwr a chleient), colled a digolledion sy'n deillio neu a ysgwyddir oherwydd unrhyw dorri neu honiad o dorri (yn cynnwys amddiffyn y cyfryw honiad o dorri) unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol wrth gyflenwi'r Gwasanaethau, ac eithrio i'r graddau yr achoswyd hynny neu y cyfrannwyd at hynny gan weithredoedd neu hepgorion y Cyngor.

F1.6 Pan derfynir y Contract, bydd y Contractwr ar gais y Cyngor yn dychwelyd yr holl ddeunyddiau, gwaith neu gofnodion a ddelir mewn perthynas â'r Gwasanaethau, yn cynnwys unrhyw gyfrwng wrth gefn, yn syth i'r Cyngor.

**F2. <u>CYFRINACHEDD A CHYHOEDDUSRWYDD</u>**

F2.1 Yn ddarostyngedig i Gymal F2.2, bydd y Partïon yn cadw Gwybodaeth Gyfrinachol y Parti arall yn gyfrinachol a byddant yn defnyddio pob ymdrech resymol i atal eu Staff, Is-gontractwyr a/neu gynrychiolwyr rhag gwneud unrhyw ddatgeliad i unrhyw berson am unrhyw fater mewn perthynas â hynny yn ystod Cyfnod y Contract ac am gyfnod o 6 blynedd ar ôl terfynu neu ddiweddu'r Contract.

F2.2 Ni fydd Cymal F2.1 yn gymwys i unrhyw achos o ddatgelu gwybodaeth:

a) sy'n ofynnol o dan unrhyw ddeddf gymwys, cyn belled bod Cymal F4 (Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol) yn gymwys i unrhyw ddatgeliad sy'n ofynnol o dan yr FOIA neu'r EIR;

b) sy'n rhesymol ofynnol gan unigolion a ddefnyddir gan Barti mewn cysylltiad â chyflawni rhwymedigaethau'r cyfryw Barti o dan y Contract hwn;

c) sy'n rhesymol ofynnol gan y Cyngor;

d) pan fo Parti yn gallu dangos bod y cyfryw wybodaeth eisoes ar gael yn gyffredinol a chyhoeddus ac eithrio o ganlyniad i dorri Cymal F2.1;

e) gan y Cyngor o unrhyw ddogfen y mae'n barti iddi ac y mae'r partïon i'r Contract hwn wedi cytuno nad ydynt yn cynnwys unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol;

f) er mwyn galluogi penderfyniad o dan Gymal D7 (Gweithdrefn Datrys Anghydfodau);

g) sydd eisoes yn gyfreithlon ym meddiant y Parti sy'n derbyn, cyn ei ddatgelu gan y Parti sy'n datgelu, ac nad yw'r Parti sy'n datgelu o dan unrhyw rwymedigaeth gyfrinachol mewn perthynas â'r wybodaeth honno;

h) gan y Cyngor i unrhyw adran, swyddfa neu asiantaeth arall y llywodraeth, cyn belled bod y Cyngor yn hysbysu'r derbynnydd am unrhyw ddyletswydd gyfrinachedd sy'n ddyledus mewn perthynas â'r Wybodaeth Gyfrinachol; a

i) thrwy gysylltiad y Cyngor â'r Contract hwn a bod y Contractwr wedi rhoi ei ganiatâd ysgrifenedig i ddatgelu ymlaen llaw mewn perthynas â hynny.

F2.3 Ar ddyddiad dod i ben y Contract neu cyn hynny, bydd y Contractwr yn sicrhau bod yr holl ddogfennau a/neu gofnodion cyfrifiadurol yn ei feddiant, cystodaeth neu reolaeth sy'n cynnwys Gwybodaeth Gyfrinachol neu sy'n gysylltiedig â gwybodaeth bersonol am gyflogeion y Cyngor, trethdalwyr neu ddefnyddwyr gwasanaeth, yn cael eu rhoi i'r Cyngor a, phan fo'n gymwys a chyda chymeradwyaeth y Cyngor, yn destun Dileu Data Ardystiedig.

F2.4 Ni fydd y Contractwr yn gwneud unrhyw ddatganiadau i'r wasg nac yn cyhoeddi'r Contract mewn unrhyw ffordd heb Ganiatâd y Cyngor.

F2.5 Bydd gan y Cyngor yr hawl i gyhoeddi'r Contract yn unol ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, yn cynnwys yn unol â'r FOIA, EIR neu ar gyfer unrhyw

archwiliad o'r Contractwr gan yr Archwilydd.

F2.6 Ni fydd y Contractwr yn gwneud unrhyw beth, nac yn achosi i unrhyw beth gael ei wneud, allai niweidio enw da y Cyngor neu ddwyn gwarth ar y Cyngor.

## **F3**. <u>**DIOGELU DATA**</u>

F3.1 Os yw darpariaeth y gwasanaethau'n cynnwys prosesu data personol, bydd y cymalau canlynol yn gymwys.

F3.2 Mewn perthynas â hawliau a rhwymedigaethau'r Partïon o dan y Contract hwn a'r ddeddfwriaeth Diogelu Data, mae'r Partïon yn cydnabod bod y Cyngor yn Rheolydd Data a bod y Contractwr yn Brosesydd Data.

F3.3 Bydd y Contractwr (a bydd yn sicrhau y bydd unrhyw is-gontractwr neu drydydd parti) yn cydymffurfio bob amser â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data a rhwymedigaethau Prosesydd Data mewn perthynas â Data Personol sy'n eiddo i'r Cyngor ac ni fydd yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract hwn mewn unrhyw fodd fyddai'n achosi i'r Cyngor dorri ei rwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth Diogelu Data.

F3.4 Bydd Atodlen 5 yn gymwys.

F3.5 Gellir dyfarnu bod methiant ar ran y Contractwr i gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Cymal F3 hwn ac Atodlen 5 yn achos o dorri'r Contract.

<u>**[Neu**</u> lle mae'r ddau barti yn Rheolwyr Data:]

F3.1 Os yw darpariaeth y gwasanaethau'n cynnwys prosesu data personol, bydd y cymalau canlynol yn gymwys.

F3.2 Mae'r Cyngor a'r Contractwr yn cydnabod bod y naill barti a'r llall yn Rheolydd Data at ddibenion y ddeddfwriaeth Diogelu Data a bod yn rhaid felly i'r ddau barti gydymffurfio â holl ofynion y ddeddfwriaeth honno.

F3.3 Os nodir bod y Cyngor a'r Contractwr yn Gyd-reolwyr fel y diffinnir gan y ddeddfwriaeth Diogelu Data, bydd Atodlen 6 yn gymwys.

## **F4**. <u>**RHYDDID GWYBODAETH A RHEOLIADAU GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL**</u>

F4.1 Mae'r Contractwr yn cydnabod bod y Cyngor yn ddarostyngedig i ofynion yr FOIA a'r EIR. Bydd y Contractwr yn:

(a) darparu'r holl gymorth a chydweithrediad angenrheidiol y bydd y Cyngor o fewn rheswm yn gofyn amdano er mwyn galluogi'r Cyngor i gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan yr FOIA a'r EIR.

(b) trosglwyddo i'r Cyngor bob Cais am Wybodaeth mewn perthynas â'r Contract hwn y mae'n ei dderbyn cyn gynted ag sy'n ymarferol ac mewn unrhyw achos o fewn dau (2) Ddiwrnod Gwaith o dderbyn hynny;

(c) darparu copi i'r Cyngor o'r holl wybodaeth sy'n eiddo i'r Cyngor y gwneir cais amdani yn y Cais am Wybodaeth sydd yn ei feddiant neu dan ei reolaeth ar y ffurf sy'n ofynnol gan y Cyngor o fewn pum (5) Diwrnod Gwaith (neu unrhyw gyfnod arall y gall y Cyngor ei nodi o fewn rheswm) o dderbyn cais y Cyngor am Wybodaeth o'r fath; a

(d) ni fydd yn ymateb yn uniongyrchol i Gais am Wybodaeth heb Ganiatâd.

F4.2 Mae'r Contractwr yn cydnabod y gall fod yn ofynnol i'r Cyngor o dan yr FOIA a'r EIR ddatgelu gwybodaeth (yn cynnwys Gwybodaeth Gyfrinachol) heb ymgynghori neu gael caniatâd gan y Contractwr. Bydd y Cyngor yn cymryd camau rhesymol i hysbysu'r Contractwr am Gais am Wybodaeth (yn unol â Chôd Ymarfer adran 45 yr Ysgrifennydd Gwladol ar Gyflawni Swyddogaethau Awdurdodau Cyhoeddus o dan Ran 1 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth) i'r graddau y caniateir hynny ac y bo'n rhesymol ymarferol iddo wneud hynny ond (er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth arall yn y Cytundeb hwn) bydd y Cyngor yn gyfrifol am benderfynu yn ôl ei ddisgresiwn llwyr a yw unrhyw wybodaeth wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a/neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

## **F5**. <u>GWAHANIAETHU</u>

F5.1 Ni fydd y Contractwr yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon o fewn ystyr a chwmpas unrhyw Ddeddf, deddfiad, gorchymyn neu reoliad mewn perthynas â gwahaniaethu (boed hynny ar sail hil, rhywedd, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu fel arall).

F5.2 Bydd y Contractwr yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod ei Staff yn cydymffurfio â Chymal F5 (Gwahaniaethu).

## F6. <u>CADW COFNODION, MYNEDIAD ARCHWILIO A MONITRO</u>

F6.1 Bydd y Contractwr yn cadw a chynnal cofnodion llawn a chywir a chyfrifon mewn perthynas â gweithredu'r Contract yn cynnwys y Gwasanaethau a ddarperir oddi tano, y Contract yr ymrwymwyd iddo gyda'r Cyngor a'r symiau a dalwyd gan y Cyngor, hyd at chwe (6) blynedd ar ôl diwedd Cyfnod y Contract (neu am gyfnod fydd yn para mor hir ag y cytunir arno gan y Partïon neu sy'n ofynnol yn ôl y Gyfraith).

F6.2 Bydd y Contractwr yn cadw'r cofnodion a'r cyfrifon y cyfeirir atynt yng Nghymal F6.1 yn unol ag arferion cyfrifyddu da.

F6.3 Ar gais bydd y Contractwr yn rhoi i'r Cyngor, cynrychiolwyr y Cyngor a/neu'r Archwilydd y cyfryw fynediad i gofnodion a chyfrifon y bydd ei angen gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.

F6.4 Bydd y Contractwr yn darparu'r cyfryw gofnodion a chyfrifon (ynghyd â chopïau o gyfrifon cyhoeddedig y Contractwr) y gwneir cais amdanynt o dan y Cymal hwn yn ystod Cyfnod y Contract ac am gyfnod o chwe (6) blynedd ar ôl i Gyfnod y Contract ddod i ben i'r Cyngor a/neu'r Archwiliwr.

F6.5 Bydd y Cyngor yn defnyddio ymdrechion rhesymol i sicrhau na fydd cynnal unrhyw archwiliad yn amharu'n afresymol ar y Contractwr nac yn oedi darparu'r Gwasanaethau, ac eithrio pan fo'r Contractwr yn derbyn ac yn cydnabod bod cynnal archwiliadau gan yr Archwiliwr y tu hwnt i reolaeth y Cyngor.

F6.6 Bydd y Contractwr yn ôl y galw yn darparu i'r Archwilydd (a/neu gynrychiolwyr y Cyngor) yr holl gydweithrediad a chymorth rhesymol mewn perthynas â phob archwiliad, yn cynnwys:

a) yr holl wybodaeth y mae'r Cyngor yn gofyn amdani o fewn cwmpas yr archwiliad;

b) mynediad rhesymol i safleoedd a reolir gan y Contractwr ac i Offer a ddefnyddir wrth ddarparu'r Gwasanaethau; a

c) mynediad i Staff.

F6.7 Mae'r Partïon yn cytuno y byddant yn ysgwyddo eu costau a'u treuliau perthnasol eu hunain mewn perthynas â chydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan y Cymal hwn oni bai bod yr archwiliad yn datgelu Tor-contract ar ran y Contractwr, ac yn yr achos hwnnw bydd y Contractwr yn ad-dalu'r Cyngor am y costau rhesymol a ysgwyddodd y Cyngor mewn perthynas â'r archwiliad.

**F7. <u>NEWID DATA A LYGRWYD</u>**

Os, drwy unrhyw Dor-contract ar ran y Contractwr, bydd data a drawsyrrir neu a brosesir mewn perthynas â'r Contract naill ai'n cael ei golli neu ei israddio i'r graddau fel nad yw'n ddefnyddiadwy, bydd y Contractwr yn atebol am gost ailffurfio'r data hwnnw a bydd yn ad-dalu'r Cyngor mewn perthynas ag unrhyw gost a godir am ei drawsyrru ac unrhyw gostau eraill a godir mewn perthynas â'r cyfryw Dor-contract.

**RHAN G - RHWYMEDIGAETHAU YN CYNNWYS RHWYMEDIGAETHAU STATUDOL**

**G1. <u>IECHYD A DIOGELWCH</u>**

Bydd y Contract yn cydymffurfio, a bydd yn sicrhau y bydd yr holl Staff yn cydymffurfio, â'r holl ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch fydd mewn grym ac unrhyw bolisïau iechyd a diogelwch y

Cyngor fel y'u darparwyd gan y Swyddog Awdurdodedig.

**G2. <u>GOFYNION CORFFORAETHOL</u>**

G2.1 Pan hysbysir y Contractwr bod hynny'n berthnasol i'r Contract, bydd y Contractwr yn ymrwymedig i gydymffurfio â, a bydd yn sicrhau y bydd y Staff yn cydymffurfio â chyfryw bolisïau perthnasol y Cyngor yn ychwanegol at unrhyw bolisïau sydd ar gael o bryd i'w gilydd ar wefan y Cyngor allai fod yn berthnasol i:

a) polisïau cydraddoldeb, gwerth cymdeithasol ac amrywiaeth;

b) polisïau iechyd a diogelwch;

c) polisïau diogelu;

d) polisïau cynaliadwyedd;

e) rheolau diogelwch gwybodaeth;

f) polisïau datgelu camarfer a/neu adrodd yn gyfrinachol;

g) yr holl reolau safle sy’n berthnasol i gyflawni rhwymedigaethau’r Contractwr wrth ddarparu'r Gwasanaethau;

h) Caethwasiaeth Fodern; a

i) rheolau sy’n atal llwgrwobrwyo gan unigolion sy’n gysylltiedig â’r Cyngor a gweithdrefnau’r Cyngor er mwyn atal llwgrwobrwyo gan unigolion sy’n gysylltiedig â Chontractwyr sy'n darparu gwasanaethau i’r Cyngor.

## G3. <u>ATAL GWEITHREDOEDD GWAHARDDEDIG, TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDIGAETH</u>

G3.1 Mae'r Contractwr:

a) yn sicrhau na fydd, ac yn sicrhau na fydd y Staff, mewn perthynas â’r Contract hwn, yn cyflawni Gweithred Waharddedig; ac

b) yn gwarantu, cynrychioli ac yn sicrhau nad yw’n ymwybodol bod unrhyw fantais ariannol neu fel arall yn cael ei rhoi i unrhyw berson sy’n gweithio i neu a ddefnyddir gan y Cyngor, neu fod cytundeb wedi cael ei wneud i’r un diben, mewn cysylltiad â gweithredu’r Contract hwn, ac eithrio unrhyw drefniant y datgelwyd manylion llawn amdano yn ysgrifenedig i’r Cyngor cyn gweithredu’r Contract hwn.

G3.2 Bydd gan y Contractwr bolisi neu bolisïau (a ddatgelir i’r Cyngor ar gais) er mwyn atal unrhyw Staff rhag cyflawni Gweithred Waharddedig a bydd yn ei orfodi pan fo’n briodol.

G3.3 Mae’r Contractwr yn gwarantu nad yw wedi talu comisiwn nac wedi cytuno i dalu comisiwn i unrhyw gyflogai neu gynrychiolydd y Cyngor gan y Contractwr neu ar ran y Contractwr.

G3.4 Os amheuir bod achos o dorri’r Cymal hwn wedi digwydd neu os bydd hynny’n hysbys, mae’n rhaid i’r Contractwr hysbysu’r Cyngor yn syth.

G3.5 Os bydd y Contractwr yn hysbysu’r Cyngor ei fod yn amau bod achos o dorri’r Cymal G3 hwn wedi digwydd neu os bydd hynny’n hysbys iddo, mae’n rhaid i’r Contractwr ymateb yn brydlon i ymholiadau’r Cyngor, cydweithredu ag unrhyw ymchwiliad, a chaniatáu i’r Cyngor archwilio llyfrau, cofnodion ac unrhyw

ddogfennau perthnasol eraill. Bydd yr ymrwymiad hwn yn parhau am chwe (6) blynedd yn dilyn terfynu neu ddiweddu'r Contract hwn.

Bydd y Contractwr:

a) os gofynnir iddo wneud hynny, yn rhoi unrhyw gymorth rhesymol i'r Cyngor, ar gost resymol y Cyngor, er mwyn galluogi'r Cyngor i gynnal unrhyw weithgaredd sy'n ofynnol gan unrhyw Gorff Rheoleiddio, Llywodraeth neu Asiantaeth berthnasol mewn unrhyw awdurdodaeth berthnasol at ddiben cydymffurfio â Deddf Llwgrwobrwyo 2010; ac

b) o fewn pymtheg (15) Diwrnod Gwaith o'r Dyddiad Cychwyn, ac yn flynyddol wedi hynny, yn ardystio i'r Cyngor yn ysgrifenedig (a'r cyfryw ardystiad yn cael ei lofnodi gan Swyddog y Contractwr) bod y Contractwr yn cydymffurfio â'r Cymal G3 (Atal Gweithredoedd Gwaharddedig, Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth) yma yn ogystal â phob person sy'n gysylltiedig ag ef neu unigolion eraill sy'n cyflenwi nwyddau neu wasanaethau mewn cysylltiad â'r Contract hwn. Bydd y Contractwr yn darparu tystiolaeth ategol o'r fath o gydymffurfiaeth fel bo'r Cyngor yn gofyn amdani o fewn rheswm.

G3.7 Gall y Cyngor derfynu'r Contract hwn drwy roi rhybudd ysgrifenedig a ddaw i rym yn syth os bydd y Contractwr neu ei Staff (ym mhob achos p'un a ydynt yn gweithredu'n ddiarwybod i'r Contractwr neu beidio) yn torri unrhyw ddarpariaethau yn y Cymal G3 hwn.

G3.8 Mae'n rhaid i unrhyw rybudd terfynu o dan y Cymal hwn nodi:

a) natur y Weithred Waharddedig;

b) pwy oedd y parti y mae'r Cyngor yn credu a gyflawnodd y Weithred Waharddedig; a

c) dyddiad terfynu'r Contract hwn.

G3.9 Er gwaethaf telerau Cymal D7 (Gweithdrefn Datrys Anghydfodau) bydd unrhyw Anghydfod mewn perthynas â dehongli'r Cymal hwn neu swm neu werth unrhyw rodd, cydnabyddiaeth neu gomisiwn, yn cael ei bennu gan y Cyngor a bydd ei benderfyniad yn derfynol.

G3.10 Ni fydd unrhyw derfynu o dan y Cymal hwn yn effeithio ar unrhyw hawl neu gam unioni sydd eisoes wedi cronni neu fydd yn cronni ar ôl hynny i'r Cyngor.

G3.11 Os bydd y Contractwr yn torri'r Cymal hwn mewn unrhyw ffordd, gall y Cyngor riportio'r digwyddiad i'r Corff Rheoleiddio perthnasol.

## G4. <u>Y GYFRAITH A NEWID YN Y GYFRAITH</u>

G4.1 Bydd y Contractwr yn cydymffurfio bob amser â'r Gyfraith wrth gyflawni'r Contract.

G4.2 Os bydd Newid yn y Gyfraith, nad oedd yn rhesymol ragweladwy ar y Dyddiad Cychwyn, yn effeithio'n uniongyrchol ar Bris y Contract, bydd y Contractwr yn gallu hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ynghylch goblygiadau llawn y Newid yn y Gyfraith, sut fydd yn effeithio ar Bris y Contract a gofyn am newid y pris.

G4.3 Os bydd cais i newid Pris y Contract yn unol â'r Cymal G4 hwn (Y Gyfraith a Newid yn y Gyfraith) yn cael ei wrthod neu na weithredir ar hynny gan y Cyngor o fewn saith (7) Diwrnod Gwaith o'r hysbysiad, gall y Contractwr ofyn am gyfarfod a bydd y Partïon yn cyfarfod o fewn deg (10) Diwrnod Gwaith o'r cais hwn er mwyn trafod goblygiadau llawn y Newid yn y Gyfraith i Bris y Contract. Os na fydd y Partïon, o fewn deg (10) Diwrnod Gwaith o'r cyfarfod hwn, wedi cytuno ar ddigwyddiad neu effaith y Newid yn y Gyfraith , bydd angen i'r Partïon ddilyn y Weithdrefn Datrys Anghydfodau.

G4.4 Bydd unrhyw symiau ychwanegol cytunedig fydd yn daladwy o ganlyniad i weithredu'r Cymal hwn yn arwain at Bris Contract diwygiedig cyn belled â bod amrywiad o'r fath yn y Contract yn unol â Chymal H1 (Amrywiad). Fel na fydd amheuaeth, ni fwriedir i ddim yn y Contract hwn ganiatáu i'r Contractwr adennill unrhyw gynnydd mewn costau ddwywaith.

## G5. <u>TUPE, PENSIYNAU AC AILDENDRO</u>

G5.1 Pan fo'r Contract yn cael ei derfynu neu ei ddiweddu neu pryd bynnag fo'r Cyngor yn gwneud cais am hynny o fewn rheswm ar gyfer paratoi trefniadau tendro, bydd y Contractwr yn rhoi'r cymorth fydd ei angen ar y Cyngor ac yn darparu, am ddim cost i'r Cyngor, unrhyw wybodaeth y gall y Cyngor (ar ei ran ei hun neu ar ran unrhyw Gontractwr Newydd posibl neu a gadarnhawyd) ofyn amdani mewn perthynas â'r Staff yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, ddarparu gwybodaeth am atebolrwydd cyflogeion fel sy'n ofynnol o dan Reoliad 11 TUPE.

G5.2 Mae'r Contractwr yn awdurdodi'r Cyngor i drosglwyddo unrhyw wybodaeth a gyflenwyd i unrhyw Gontractwr Newydd neu Gontractwr Newydd arfaethedig, a bydd y Contractwr yn sicrhau'r holl ganiatadau angenrheidiol gan y cyflogeion perthnasol er mwyn gwneud hynny.

G5.3 Bydd y Contractwr yn sicrhau bod y Cyngor ac unrhyw Gontractwr Newydd wedi eu hindemnio'n llawn yn erbyn pob atebolrwydd fydd yn deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol mewn cysylltiad ag unrhyw achos o dorri'r cymal hwn neu anghywirdebau yn y wybodaeth a ddarparwyd neu unrhyw hepgorion ynddi.

## RHAN H - DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

## H1. <u>AMRYWIO'R CONTRACT</u>

H1.1 Nid yw unrhyw amrywiad i'r Contract yn ddilys oni bai fod hynny yn ysgrifenedig ac wedi'i lofnodi gan y Cyngor a'r Contractwr.

H1.2 Bydd gan y Cyngor yr hawl i roi i'r Contractwr gais ysgrifenedig i amrywio mewn perthynas ag ychwanegu, gohirio, lleihau neu ddiweddu darparu unrhyw Wasanaethau a/neu ddarparu Gwasanaethau mewn achos brys.

H1.3 Bydd unrhyw amrywiad i'r Contract yn cydymffurfio â'r egwyddorion canlynol:

(a) cwmpas a natur yr addasiadau posibl neu opsiynau ac amodau defnyddio wedi eu nodi yn y Manylebau;

(b) ni fydd amrywiad yn newid natur gyffredinol y Gwasanaethau neu'r Contract; a

(c) gofynion adran 74 o Ddeddf Caffael 2023 (fel y'i diwygiwyd) (pan fo'n berthnasol).

H1.4 Bydd y Contractwr yn hysbysu'r Cyngor am y gost arfaethedig gysylltiedig, a gyfrifir yn unol â'r cyfraddau a'r prisiau a ddefnyddir i gyfrifo Pris y Contract ar sail pro-rata, er mwyn gweithredu'r amrywiad y gofynnir amdano.

H1.5 Os na fydd y Contractwr yn gallu darparu amrywiad i'r Contract, neu pan na fydd y partïon yn gallu cytuno ar newid ym Mhris y Contract, gall y Cyngor:

a) gytuno bod y Partïon yn parhau i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Contract heb yr amrywiad; neu

b) derfynu'r Contract ar unwaith.

H1.6 Os bydd y Partïon yn cytuno ar amrywiad, bydd y Contractwr yn gweithredu'r cyfryw amrywiad a bydd yn rhwymedig gan yr un darpariaethau cyn belled â bod hynny'n gymwys, fel petai'r cyfryw amrywiad wedi ei nodi yn y Contract.

H1.7 Er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth yn y Cymal H1 hwn gall y Cyngor benderfynu, yn ôl ei ddisgresiwn absoliwt a chan weithredu'n rhesymol, fwrw ymlaen i derfynu'r Contract yn hytrach na phrosesu'r amrywiad i'r Contract yn unol â Chymal D5.1(e).

## H2. HAWLIAU A CHAMAU UNIONI

Mae'r hawliau a'r camau unioni a ddarperir o dan y Contract hwn yn ychwanegol at, ac nid yn eithriedig o, unrhyw hawliau neu gamau unioni a ddarperir yn ôl y gyfraith.

## H3. HAWLIAU TRYDYDD PARTI

H3.1 Ni fydd gan berson nad yw'n barti i'r Contract unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 i orfodi unrhyw un o delerau'r Contract hwn.

H3.2 Nid yw hawliau'r partïon i derfynu, dirymu neu gytuno ar unrhyw amrywiad, hawlildiad neu setliad o dan y Contract hwn yn ddarostyngedig i ganiatâd unrhyw berson arall.

## H4. HAWLILDIO

H4.1 Ni fydd methiant neu oedi ar ran unrhyw barti i weithredu unrhyw hawl neu gamau unioni o dan y Contract hwn neu yn ôl y Gyfraith ddim yn ildio hynny nac yn ildio unrhyw hawl neu gamau unioni eraill, ac ni fydd yn atal unrhyw weithredu pellach ar hynny nac unrhyw hawl neu gamau unioni eraill. Ni fydd ymarfer unrhyw hawl neu gamau unioni sengl neu rannol a ddarperir o dan y Contract neu'n ôl y Gyfraith yn atal neu'n gwahardd gweithredu hynny ymhellach neu unrhyw hawl neu gamau unioni eraill.

H4.2 Mae ildio unrhyw hawl neu gamau unioni o dan y Contract hwn neu yn ôl y Gyfraith ond yn effeithiol os rhoddir hynny yn ysgrifenedig yn unol â'r darpariaethau hysbysu ac ni ddyfernir ei fod yn hawlildiad o unrhyw dor-contract dilynol.

## H5. GWAHANU

Os bydd neu os daw unrhyw ddarpariaeth neu ran o ddarpariaeth y Contract hwn yn annilys, anghyfreithlon neu'n anorfodadwy, byddir yn ystyried ei fod wedi ei addasu i'r graddau sy'n angenrheidiol i'w wneud yn ddilys, yn gyfreithiol neu'n orfodadwy. Os na fydd y cyfryw addasiad yn bosibl, ystyrir bod y ddarpariaeth berthnasol neu'r rhan o'r ddarpariaeth wedi ei dileu. Ni fydd unrhyw addasiad i neu ddileu darpariaeth neu ran o ddarpariaeth o dan y Cymal **H5 Gwahanu** yma yn effeithio ar ddilysrwydd a gorfodadwyedd gweddill y Contract hwn.

## H6. ASEINIO, IS-GONTRACTIO A CHYFRIFOLDEB

H6.1 Ni fydd y Contractwr yn aseinio, amnewid, is-gontractio nac yn gwaredu'r Contract neu ran ohono mewn unrhyw ffordd arall heb Gymeradwyaeth ymlaen llaw.

H6.2 Pan fo'r Cyngor wedi cymeradwyo Is-gontractau, bydd copïau o bob Is-gontract (a/neu unrhyw wybodaeth ychwanegol y bydd y Cyngor yn gofyn amdani mewn perthynas â'r Is-gontract) yn cael ei roi i'r Cyngor mor fuan ag sy'n rhesymol bosibl yn dilyn cais gan y Cyngor mewn perthynas â hynny.

H6.3 Ni fydd Is-gontractio unrhyw ran o'r Contract yn rhyddhau'r Contractwr o unrhyw rai o'i rwymedigaethau neu ddyletswyddau o dan y Contract.

H6.4 Bydd y Contractwr yn gyfrifol am weithredoedd a hepgorion ei Is-gontractwr fel petaent yn ei weithredoedd a'i hepgorion ei hun.

H6.5 Bydd gan y Cyngor yr hawl absoliwt i ofyn i'r Contractwr amnewid Is-gontractwr am unrhyw reswm bynnag boed yna seiliau gorfodol neu anorfodol dros wneud hynny neu beidio.

H6.6 Gall y Cyngor aseinio, amnewid neu waredu ei hawliau a'i rwymedigaethau o dan y Contract neu unrhyw ran ohono mewn unrhyw fodd arall i:

a) unrhyw gorff arall sydd wedi ei sefydlu gan y Goron neu o dan statud er mwyn cyflawni'n sylweddol unrhyw rai o'r swyddogaethau oedd wedi cael

eu cyflawni gan y Cyngor; neu

b) unrhyw gorff yn y sector preifat sydd yn cyflawni'n sylweddol swyddogaethau'r Cyngor; neu

c) unrhyw gorff arall sydd wedi ei sefydlu gan y Cyngor neu o dan statud er mwyn cyflawni'n sylweddol unrhyw rai o'r swyddogaethau oedd wedi cael eu cyflawni gan y Cyngor; neu

d) fel sy'n ofynnol yn ôl y Gyfraith.

cyn belled nad yw unrhyw gyfryw aseiniad, newyddiad neu ddiddymiad yn cynyddu baich ymrwymiadau'r Contractwr o dan y Contract hwn.

H6.7 Mewn perthynas ag Is-gontractwyr, bydd y canlynol yn gymwys:

a) cyn y Dyddiad Cychwyn, bydd y Contractwr yn hysbysu'r Cyngor ynghylch enw, manylion cysylltu, cynrychiolwyr cyfreithiol pob Is-gontractwr;

b) unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a ddarperir i'r Cyngor yn unol â Chymal H6.7.a yn cynnwys unrhyw newid i'r Is-gontractwr a ddefnyddir gan y Cyngor i ddarparu'r Gwasanaethau;

c) rhaid i'r Contractwr sicrhau nad yw, ar unrhyw adeg yn ystod Cyfnod y Contract, yn ymrwymo i Is-gontract gydag unrhyw gyflenwr sydd ar y rhestr rhagwaharddiadau ar sail fandadol dros wahardd o fewn ystyr Deddf Caffael 2023 a rheoliadau cysylltiedig neu unrhyw gyflenwr sydd ar y rhestr rhagwaharddiadau ar sail ddisgresiynol dros wahardd o fewn ystyr Deddf Caffael 2023 a rheoliadau cysylltiedig, oni bai bod y Contractwr wedi cael caniatâd ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw i benodi'r Is-gontractwr arfaethedig perthnasol.

d) bydd gan y Cyngor yr hawl absoliwt i ofyn i'r Contractwr amnewid Is-gontractwr am unrhyw reswm bynnag boed yna seiliau gorfodol neu anorfodol dros wneud hynny neu beidio yn unol â Deddf Caffael 2023.

H6.8 Os yw Is-gontractwr i'w benodi o dan y Contract hwn, yna caiff y Cyngor, yn unol ag Adran 72 o Ddeddf Caffael 2023, ei gwneud yn ofynnol i'r Contractwr ymrwymo i drefniant cyfreithiol rwymol gyda'r Is-gontractwr arfaethedig o fewn cyfnod rhesymol ar ôl y Dyddiad Cychwyn a bennir gan y Cyngor.

H6.9 Os nad yw'r Contractwr yn ymrwymo i gytundeb cyfreithiol rwymol yn unol â Chymal H6.8, caiff y Cyngor:

a) terfynu'r Contract hwn a bydd y canlyniadau terfynu a nodir yng Nghymal D6 yn gymwys; neu
b) ei gwneud yn ofynnol i'r Contractwr ymrwymo i gytundeb cyfreithiol rwymol gydag Is-gontractwr arall.

H6.10 O ran Is-gontractau yng nghadwyn gyflenwi'r Contractwr yr ymrwymir iddynt yn gyfan gwbl neu'n sylweddol at ddibenion cyflawni neu gyfrannu at gyflawni'r Contract hwn yn gyfan gwbl neu unrhyw ran ohono:

a) ar ôl y Dyddiad Cychwyn, bydd y Contractwr yn sicrhau eu bod i gyd yn cynnwys darpariaethau sy'n; neu

b) ar neu cyn y Dyddiad Cychwyn, bydd y Contractwr yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau eu bod i gyd yn cynnwys darpariaethau sy'n:

   a. caniatáu i'r Contractwr derfynu'r Is-gontract os yw'r Is-gontractwr yn methu â chydymffurfio â'i rwymedigaethau mewn perthynas â Chyfraith amgylcheddol, cymdeithasol neu gyflogaeth;

   b. ei gwneud yn ofynnol bod pob Is-gontractwr yn cael ei dalu:

      i. cyn diwedd y cyfnod o dri deg (30) o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y derbynnir anfoneb gan y Contractwr neu barti arall mewn perthynas â'r swm; neu

      ii. os yw'n hwyrach, y dyddiad y mae'r taliad yn ddyledus yn unol â'r anfoneb, yn amodol ar y parti sy'n gwneud y taliad yn cadarnhau'r anfoneb fel un ddilys a diddadl.

   c. ei gwneud yn ofynnol i'r parti sy'n derbyn nwyddau neu wasanaethau o dan y contract ystyried a gwirio anfonebau o dan y contract hwnnw mewn modd amserol a hysbysu'r Is-gontractwr heb oedi diangen os yw'n ystyried bod yr anfoneb yn annilys neu os yw'n anghytuno â'r anfoneb; a

   d. caniatáu i'r Cyngor gyhoeddi manylion y taliad hwyr neu'r diffyg taliad os eir y tu hwnt i’r terfyn hwn o dri deg (30) diwrnod;

c) Rhaid i'r Contractwr sicrhau bod teler sy'n gyfwerth â Chymal H6.10 yn cael ei gynnwys ym mhob Is-gontract yn ei gadwyn gyflenwi, fel bod yn rhaid i bob Is-gontractwr gynnwys y telerau hynny yn unrhyw un o'i Is-gontractau ei hun yn y gadwyn gyflenwi ar gyfer cyflawni'r Contract hwn. Bydd cyfeiriadau at y "Contractwr" a'r "Is-Gontractwr" yng Nghymal H6.10 yn cael eu disodli gan gyfeiriadau at yr Is-gontractwyr priodol sy'n bartïon i'r contract perthnasol.

## H7. Gwaharddedig a Gwaharddadwy

H7.1 Yn ystod Cyfnod y Contract, bydd y Contractwr yn hysbysu'r Cyngor cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol os:

a) mae'r Contractwr o'r farn bod sail dros wahardd o fewn Deddf Caffael 2023 ac unrhyw reoliadau cysylltiedig yn berthnasol i'r Contractwr, gan gynnwys pan fo'r Contractwr yn cael ei roi ar y rhestr rhagwaharddiadau neu'n dod yn

gyflenwr gwaharddedig neu waharddadwy yn rhinwedd unrhyw bersonau â chyswllt neu is-gontractwyr pan ddarparwyd gwybodaeth sy'n ymwneud â hynny o dan Adran 28 o Ddeddf Caffael 2023; a/neu

b) mae unrhyw newidiadau i bersonau â chyswllt y Contractwr o fewn ystyr Deddf Caffael 2023.

H7.2 Os yw'r Contractwr yn hysbysu'r Cyngor yn unol â Chymal H7.1a), yna rhaid i'r Contractwr ddarparu'n brydlon unrhyw wybodaeth y mae'r Cyngor yn gofyn yn rhesymol amdani mewn perthynas â'r hysbysiad, gan gynnwys gwybodaeth i gefnogi asesiad ynghylch a yw'r amgylchiadau sy'n arwain at y sail dros wahardd yn parhau neu'n debygol o ddigwydd eto.

H7.3 Os yw'r Contractwr yn hysbysu'r Cyngor yn unol â Chymal H7.1b) uchod, yna rhaid i'r Contractwr ddarparu'n brydlon unrhyw wybodaeth y mae'r Cyngor yn gofyn yn rhesymol amdani mewn perthynas â'r newid i bersonau â chyswllt y Contractwr, gan gynnwys unrhyw wybodaeth a nodir yn Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024.

H7.4 Caiff y Cyngor derfynu'r Contract hwn os:

a) mae'r Contractwr wedi methu â rhoi hysbysiad o dan Gymal H7.1a) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r Contractwr ddod yn ymwybodol bod sail dros wahardd o fewn Deddf Caffael 2023 ac unrhyw reoliadau cysylltiedig yn berthnasol, neu y gall fod yn berthnasol, i'r Cyflenwr;

b) mae'r Contractwr wedi methu â rhoi hysbysiad o dan Gymal H7.1b)cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r Contractwr ddod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i bersonau â chyswllt y Contractwr o fewn ystyr Deddf Caffael 2023; a/neu

c) mae unrhyw hysbysiad neu wybodaeth a ddarperir gan y Contractwr o dan Gymal H7.1, H7.2 a/neu H7.3 yn anghyflawn, yn anghywir neu'n gamarweiniol, a bydd y canlyniadau terfynu a nodir yng Nghymal D6 yn gymwys.

H7.5 Nid yw Cymal H7.4 yn gwneud niwed i hawliau'r Prynwr i derfynu'r Contract yn unol â Chymal D3.2 (d).

## H8. <u>FORCE MAJEURE</u>

H8.1 Ni fydd y naill Barti na'r llall yn atebol am fethu â chyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract os bydd y cyfryw fethiant yn deillio o Force Majeure.

H8.2 Bydd gan y Cyngor yr hawl, yn llwyr neu'n rhannol, i ohirio'r dyddiad neu ddyddiadau darparu'r Gwasanaethau nes bod amgylchiadau'r Force Majeure wedi dod i ben. Ni fydd y gohiriad yn arwain at unrhyw hawliad gan y Contractwr yn erbyn y Cyngor nac yn rhoi hawl i'r Contractwr derfynu'r Contract.

H8.3 Os bydd achos o Force Majeure yn atal y naill Barti neu'r llall rhag cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract mewn unrhyw gyswllt am gyfnod parhaus o chwe deg (60) diwrnod, gall y naill Barti neu'r llall, heb effeithio ar hawliau neu

gamau unioni a gronnwyd o dan y Contract, derfynu'r Contract yn syth drwy hysbysu'r Parti arall yn ysgrifenedig.

**H9. AMHARIAD A PHARHAD BUSNES**

H9.1 Bydd y Contractwr yn cymryd gofal rhesymol er mwyn sicrhau, wrth gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract, nad yw'n amharu ar waith y Cyngor, ei gyflogeion neu unrhyw Gontractwr arall a gyflogir gan y Cyngor.

H9.2 Bydd y Contractwr yn hysbysu'r Cyngor ar unwaith am unrhyw weithredu diwydiannol gwirioneddol neu bosibl, p'un a bod y cyfryw weithredu yn cael ei wneud gan ei gyflogeion ei hun neu eraill, sy'n effeithio neu all effeithio ar ei allu ar unrhyw adeg i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract.

H9.3 Os yw'n cael ei nodi yn y Fanyleb, bydd gan y Contractwr (a bydd yn sicrhau bod yr Is-gontractwr yn gwneud hynny) yn ystod Cyfnod y Contract, Gynllun Dilyniant Busnes ar waith. Bydd y Contractwr yn darparu (ac yn sicrhau bod yr Is-gontractwr yn darparu) Cynllun Dilyniant Busnes yn amserol ac ar gais.

H9.4 Mewn achos o Ddigwyddiad Dilyniant Busnes, bydd y Contractwr yn galw ar y Cynllun Dilyniant Busnes, fel sy'n ofynnol gan y Cyngor i wneud hynny.

**H9. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

H9.1 Bydd y Contractwr yn cymryd camau priodol i sicrhau na fydd y Contractwr nac unrhyw Staff yn cael eu rhoi mewn sefyllfa ble (ym marn resymol y Cyngor) mae yna neu y gallai fod yna wrthdaro gwirioneddol, neu wrthdaro posibl, rhwng buddiannau ariannol neu bersonol y Contractwr neu Staff a'r dyletswyddau sy'n ddyledus i'r Cyngor o dan ddarpariaethau'r Contract.

H9.2 Bydd y Contractwr yn hysbysu'r Cyngor yn brydlon (ac yn darparu manylion llawn i'r Cyngor) os bydd unrhyw anghydfod y cyfeirir ato yng Nghymal H9.1 yn codi neu yn rhesymol ragweladwy.

H9.3 Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i derfynu'r Contract yn syth drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Contractwr a/neu i gymryd unrhyw gamau eraill y bernir sy'n angenrheidiol i sicrhau na fydd y Contractwr yn cael ei roi mewn sefyllfa ble, ym marn resymol y Cyngor, mae yna neu y gallai fod yna wrthdaro gwirioneddol, neu wrthdaro posibl, rhwng buddiannau ariannol neu bersonol y Contractwr neu Staff a'r dyletswyddau sy'n ddyledus i'r Cyngor o dan ddarpariaethau'r Contract. Ni fydd gweithredoedd y Cyngor o dan y Cymal hwn yn effeithio ar unrhyw hawl i weithredu neu gam unioni sydd wedi cronni neu fydd yn cronni wedi hynny i'r Cyngor.

**H10. COSTAU A THREULIAU**

Bydd y naill Barti a'r llall yn talu am eu costau a'u treuliau eu hunain a ysgwyddir mewn cysylltiad â thrafod, paratoi, llunio, cwblhau a gweithredu'r Contract hwn.

## H11. PEIDIO AG ERFYN

H11.1 Am gyfnod y Contract ac am gyfnod o ddeuddeg (12) mis ar ôl hynny ni fydd y Cyngor na’r Contractwr yn:

a) cyflogi nac yn cynnig cyflogaeth i unrhyw staff y Parti arall neu staff sydd wedi bod yn gysylltiedig â chaffael, darparu a/neu reoli’r Contract Gwasanaethau heb ganiatâd ymlaen llawn gan y Parti arall; a/neu

b) gynorthwyo neu sicrhau bod unrhyw drydydd parti yn cyflogi neu’n cynnig cyflogaeth yn groes i’r Cymal H11.1 hwn.

## H12. CYFRAITH LYWODRAETHU AC AWDURDODAETH

H12.1 Bydd y Contract hwn ac unrhyw anghydfod neu hawl fydd yn deillio ohono neu’n gysylltiedig ag ef neu ei bwnc neu ei ffurfiant (yn cynnwys anghydfodau neu hawliadau di-gontract) yn cael eu llywodraethu gan, ac yn cael eu dehongli’n unol â chyfraith Cymru a Lloegr.

H12.2 Mae’r naill Barti a’r llall yn cytuno’n ddi-alw’n-ôl y bydd gan lysoedd Cymru a Lloegr yr awdurdodaeth unigryw i ddatrys unrhyw anghydfod neu hawl fydd yn deillio ohono neu’n gysylltiedig ag ef neu ei bwnc neu ei ffurfiant (yn cynnwys anghydfodau neu hawliadau di-gontract).

## H13 SAFONAU'R GYMRAEG

Bydd y Contractwr yn cydymffurfio â darpariaethau Safonau’r Gymraeg ac unrhyw gynllun cyffelyb neu safonau cyffelyb fydd mewn grym gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.

## I1 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU’R DYFODOL (CYMRU) 2015

I1.1 Mae’r Contractwr yn cydnabod, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, ei bod yn ofynnol i’r Cyngor ystyried sut y mae’r Gwasanaethau y mae’r Cyngor yn eu caffael yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, ac amgylcheddol ardal y Cyngor.

I1.2 Bydd y Contractwr yn sicrhau y bydd, drwy ddarparu’r Gwasanaethau, yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ardal y Cyngor yn unol â gofynion y Fanyleb a’r Tendr.

| |
|---|
| **Tystied hyn oll bod y Partïon wedi llofnodi'r Contract hwn ar yr [ ] diwrnod o fis 202[ ]** |
| Llofnodwyd gan y Cyngor<br>**Y CYNGOR SIR**<br><br>Llofnod …………………………..<br><br>Swydd …………………………….<br><br><br>Llofnod …………………………..<br><br>Swydd ……………………………. |
| **Contractwr:**<br><br>Llofnod<br>Enw:<br>Dyddiad:<br><br>Llofnod<br>Enw:<br>Dyddiad: |

**OS YN LLOFNODI FEL GWEITHRED DEFNYDDIER Y CYMAL CANLYNOL:**

| |
|---|
| **Tystied hyn oll bod y Partïon wedi gweithredu a chyflawni'r Contract hwn fel Gweithred ar y**<br>**[ ] diwrnod o 202[ ]** |
| **Rhoddwyd SÊL GYFFREDIN CYNGOR SIR ar y ddogfen hon ym mhresenoldeb**<br><br>Llofnod …………………………..<br><br>Swydd …………………………….<br><br>Llofnodwr awdurdodedig |
| **LLOFNODWYD FEL GWEITHRED GAN Y CONTRACTWR**<br><br>Llofnod<br>Enw:<br>Dyddiad:<br><br>Llofnod<br>Enw:<br>Dyddiad: |

## SCHEDULE 1 – SPECIFICATION (ATTACH)

## ATODLEN 2 - Tendr (ATODER)

## ATODLEN 3 - PRIS Y CONTRACT A MANYLION TALIADAU (ATODER atodlen brisio)

## ATODLEN 4 - MONITRO PERFFORMIAD Y CONTRACT, DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL A GWYBODAETH REOLI (ATODER)

**ATODLEN 5 - TEMPLED CYTUNDEB PROSESU DATA (ATODER OS YN BERTHNASOL)**

**ATODLEN 6 CYD-REOLWYR - ARFER HAWLIAU DIOGELU DATA GAN UNIGOLION (ATODER OS YN BERTHNASOL)**

I'w gytuno wrth ddyfarnu gyda'r cyflenwr/cyflenwyr llwyddiannus